



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD LLUN, 6ED GORFFENNAF, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (9)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen
Ioan Thomas

Geraint Wyn Parry

Elin Hywel

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig (2)

Y Cynghorydd Robin Wyn Williams
Y Cynghorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 26ain o Chwefror 2026 a'r 16eg o Fawrth 2026 fel rhai cywir

7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

16 - 102

I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru

8. FFORWM CRONFA BENSIWN AWDURDODAU LLEOL (LAPFF)

103 - 105

I nodi cynnwys yr adroddiad

9. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

106 - 150

Cyflwyno a nodi 'Datganiad o'r Cyfrifon Drafft'.

10. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2026

151 - 168

I ystyried a derbyn y Cynllun Archwilio

11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y

datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

**12. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD
YMGYSYLLTU 01.10.2025-31.12.2025**

I ystryied yr adroddiad

(copi i Aelodau'r Pwyllgor yn unig)

**13. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD
HYD AT 31 MAWRTH 2026**

I ystryied yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

(copi i Aelodau'r Pwyllgor yn unig)

PWYLLGOR PENSIYNAU 26-02-2026

- Presenoldeb:** Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd)
Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)
- Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Geraint Parry, ac Ioan Thomas
- Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Tony Deakin (aelod o'r Bwrdd Pensiwn) - arsylwi

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Brynmor Hughes, a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Yn dilyn penderfyniad y Cyng. R Medwyn Hughes i sefyll i lawr fel Aelod, a Chyn-gadeirydd o'r Pwyllgor Pensiynau, diolchwyd iddo am ei waith a'i gefnogaeth i'r Pwyllgor dros ei gyfnod fel Aelod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

4. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC) - DIWEDDARU'R CYTUNDEB RHYNG - AWDURDOD (IAA)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn amlygu'r angen i'r Pwyllgor argymhell yn ffurfiol i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA).

Atgoffwyd yr Aelodau mai fframwaith cyfreithiol a llywodraethu ffurfiol sydd yn rhwymo wyth awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yw'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Adroddwyd bod y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) wedi ei gymeradwyo yn gyntaf yn 2017 pan sefydlwyd PPC, ond yn dilyn ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol', a'r addasiadau oedd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Llywodraeth y DU, sefydlwyd ac ymgorfforwyd cwmni rheoli buddsoddiadau 'WPP IM Co. O ganlyniad, ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r IAA i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Ategwyd, er bod PPC wedi bod yn llwyddiannus gyda llywodraethiant a threfniadau da yn arwain at ddychweliadau da, nid oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn fodlon parhau â'r trefniant ac felly bu rhaid ffurfio cwmni buddsoddi newydd; o dan ofynion 'Addas i'r Dyfodol' bydd addasiadau sylweddol i'r strwythur presennol, fydd angen bod yn weithredol erbyn y 1af o Ebrill 2026.

Cyfeiriwyd at brif newidiadau'r strwythur newydd ynghyd a'r nodyn sicrwydd roedd Hymans Robertson (ymgyngorydd goruchwylio a llywodraethu PPC) wedi ei baratoi i'r wyth awdurdod gweinyddol. Nodwyd bod y nodyn sicrwydd, yn cynnwys mewnbwn gan yr wyth awdurdod, ac yn rhoi trosolwg annibynnol ar y drefn newydd a'r diwygiadau allweddol arfaethedig oedd yn rhan o'r argymhelliad.

Tynnwyd sylw at waith a baratowyd gan Burges Salmon (cyngorydd cyfreithiol PPC) oedd yn manylu at holl ddiwygiadau arfaethedig i'r IAA. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod sawl haen o oruchwyliaeth wedi craffu'r cytundeb arfaethedig oedd yn cynnwys trafodaethau gyda'r Grŵp Llywio, a Swyddogion Monitro'r wyth awdurdod gweinyddol wedi rhoi mewnbwn i sicrhau bod y Cynghorau unigol yn ddiogel; Bydd pob un o'r wyth awdurdod gweinyddol yn dilyn yr un drefn i gymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Diolchwyd am y gwaith cefndirol oedd wedi ei wneud i baratoi'r cytundeb o fewn amserlen dynn, ac i Hymans Robertson a Burges Salmon ar eu gwaith craffu da o amlygu'r goblygiadau.

Diolchwyd am y gweithdy rhannu gwybodaeth a drefnwyd ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn (23-02-26) y drafodaeth wedi bod yn werthfawr a buddiol ac wedi ei gynnal o fewn awyrgylch hynaws – yn rhoi sicrwydd bod y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau cywir.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Pryder bod rôl y Pwyllgor yn ymddangos fel corff goruchwylio ac yn colli'r hawl o fod yn rhan o drafodaeth buddsoddiadau
- Pryder bod y Pwyllgor yn colli'r rôl reolaethol a'u cyfrifoldebau
- Pam mai Uwch Swyddog ac nid Aelod sydd ar y Fforwm Cyfranddalwyr? Cyfle yn cael ei gollu o gael llais Aelodau ar y Fforwm - bydd y cyhoedd yn cysylltu / rhannu eu pryderon gydag Aelodau Etholedig os na fydd pethau yn mynd yn dda, felly doeth fyddai iddynt gael mewnbwn
- Rhaid pwysleisio mai ymateb i ofynion statudol yw cymeradwyo'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod
- Bod ansawdd y gwaith cefndirol o safon uchel iawn, yn broffesiynol a manwl - y Pwyllgor yn ddibynnol ar safon gwybodaeth o'r lefel yma

Mewn ymateb i'r sylwadau, derbyniodd y Pennaeth Cyllid bod y sefyllfa yn un rhwystredig a bod haenau o gymhlethdod yn cael eu hychwanegu at y drefn bresennol sydd, hyd yma, wedi bod yn glir a threfnus iawn. Ategodd mai ef fel Swyddog Adran 151 fydd yn mynychu'r Fforwm Cyfranddalwyr ar ran y Cyngor (ac nid PPC) lle bydd dyletswydd ganddo i sicrhau bod cyfranddaliadau a gweithredoedd yn ddiogel. Ategodd y Swyddog Monitro mai Cyfranddaliwr yw'r Cyngor yn y sefyllfa yma sydd â hawl i bleidlais ar y penderfyniadau i warchod buddiannau Gwynedd; byddai modd trafod hynny yn yr eitem cymeradwyo Cytundeb Cyfranddalwyr.

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r Cytundeb i'r Cyngor Llawn

PENDERFYNWYD:

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.**
- **Argymhell y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) ddiwygiedig i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026 am gymeradwyaeth fel mater wedi ei neilltuo**

5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaedig er y budd cyhoeddus.

6. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC) – DOGFENNAU LLYWODRAETHU I FODLONI'R GOFYNION "ADDAS AR GYFER Y DYFODOL"

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi mewn ymateb i fodloni uchelgeisiau "Addas ar gyfer y Dyfodol" Llywodraeth y Deyrnas Unedig (bydd disgwyl iddynt ddod yn Ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2026), drwy wneud newidiadau angenrheidiol i drefniadau llywodraethu presennol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) tra hefyd yn cyflwyno dogfennau annibynnol newydd - Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA) a Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA).

Eglurwyd, yn wahanol i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod, bod y Cyngor Llawn (Gorffennaf 2025) wedi dirprwyo'r hawl i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo dogfennaeth ffurfiol derfynol ar gyfer gweithredu'r Cwmni Rheoli Buddsoddi a rhoi hawl i Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau i fwrw ymlaen gyda Phrosiect yr Wyddfa gydag Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.

Trafodwyd Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA) a'r Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA).

PENDERFYNWYD

1. **Cymeradwyo'r Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA) sydd newydd ei greu, sy'n ofyn cyfreithiol.**
2. **Cymeradwyo'r Cytundeb Gwasanaeth Cleientiaid (CSA) sydd newydd ei greu, sy'n ofyn cyfreithiol.**
3. **Lle bo hynny'n briodol, i ddirprwyo pwerau i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau, i wneud mân ddiwygiadau i'r cytundebau, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cytundebau**
4. **Ymhen 12 - 18 mis, dylid adolygu'r Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA) i archwilio sut i gynnwys cynrychiolwyr etholedig mewn swyddogaeth ddibleidlais.**
5. **Fel rhan o raglen waith y Pwyllgor, bod angen edrych ar wella trefniadau craffu a herio adroddiadau PPC IM Co**

6. **Bod angen cynnwys cymal yn rhaglen waith y Pwyllgor i roi ystyriaeth i gyfleoedd buddsoddi yn lleol / a neu ystyriaeth i gynigion o fuddsoddi yn lleol**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben 11:40

PWYLLGOR PENSIYNAU 16-03-2026

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), John Brynmor Hughes, Gwynfor Owen, Geraint Parry, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Roland Thomas (aelod o'r Bwrdd Pensiwn) - arsylwi

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd) a'r Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)

Yn absenoldeb y Cadeirydd ar Is-gadeirydd gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd i'r cyfarfod yma yn unig. Cynigwyd ac eiliwyd y Cyng. Ioan Thomas a'r Cyng. Stephen Churchman.

Pleidleisiwyd ar y ddau gynnig.

Etholwyd y Cynghorydd Stephen Churchman fel Cadeirydd i'r cyfarfod yma yn unig.

Croesawyd y Cynghorydd Gwynfor Owen fel aelod newydd i'r Pwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Chwefror 2026 fel rhai cywir

5. RHAGAMCANION MODELU LLIF ARIAN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi mewn ymateb i'r angen i ragamcanu llif arian disgwylidig y Gronfa dros gyfnod hirdymor, fel bod modd deall sensitifwydd sefyllfa llif arian net y Gronfa mewn nifer o senarios chwyddiant. Adroddwyd, er bod y prisiad teirblynyddol wedi dangos bod y Gronfa mewn sefyllfa iach o ran asedau, rhaid cadw golwg ar lif arian y Gronfa gan ystyried trosi rhai asedau i arian neu i asedau fyddai'n talu incwm rheolaidd (er mwyn talu'r pensiynwyr), ac a fyddai digon o arian yn dod i mewn i'r Gronfa o ddydd i ddydd i wneud hynny.

Tynnwyd sylw at y mathau o incwm a'r gwariant rheolaidd sydd yn digwydd o fewn y Gronfa, ynghyd a sefyllfa llif arian y blynyddoedd diweddar oedd yn amlygu bod y

sefyllfa wedi bod yn bositif dros y tair mlynedd ddiwethaf. Eglurwyd ei bod yn arferol i Gronfa Bensiwn fynd i sefyllfa llif arian negyddol pan fydd taliadau buddion yn mynd yn uwch na'r incwm sydd yn dod i mewn, ac felly amlinellwyd bwysigrwydd o'r angen i fonitro'r sefyllfa a defnyddio Strategaeth Fuddsoddi er mwyn gwerthu neu newid y math o asedau sydd fwyaf priodol.

Cyfeiriwyd at adroddiad a ddarparwyd gan Hymans Robertson oedd yn asesu'r sefyllfa ynghyd a chanlyniadau scenario analysis a wnaethwpyd i ganfod beth fydd effaith chwyddiant gwahanol lefelau. Ymddengys petai senario waelodlin, yna bydd potensial i'r Gronfa wynebu sefyllfa llif arian negyddol yn 2027 ac yn gynharach na hynny os bydd chwyddiant yn parhau ar lefel uchel. Ategwyd, yn y tymor byr, bod gan y Gronfa gronfeydd hylifol y gellid galw arnynt ar fyr rybudd; bydd monitro a gweithredu'r llif arian hefyd yn ystyriaeth i'r Cwmni Rheoli Buddsoddi WPP IM Co o fis Ebrill 2026 – bydd angen cydweithio gyda'r cwmni dros y cyfnod nesaf i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael.

Diolchwyd am yr adroddiad a gwerthfawrogwyd yr ymarferiad gan Hymans Robertson.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i ystyried polisi llif arian ac ail-gydbwysio ffurfiol, nodwyd bydd rhain yn gamau y bydd Cwmni Buddsoddi WPP IMCo angen eu hystyried; bydd y cwmni hefyd gyda'r arbenigedd i wneud y penderfyniad cywir. Ategwyd bod asedau ecwiti bellach wedi eu dad risgio, bod camau diogelu mewn lle a bod y sefyllfa yn un synhwyrol.

PENDERFYNWYD:

- **Nodi'r cynnwys a derbyn yr adroddiad**

6. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn egluro'r gofyn sydd ar y Gronfa i adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido pob tair blynedd, a hynny ar ôl y prisiad teirblynyddol (onibai bod newid sylweddol yn amodau'r farchnad). Amlygwyd mai prif bwrpas y datganiad yw adlewyrchu ffactorau'r prisiad gan bwysu a mesur fforddiadwyedd i'r cyflogwyr gydag amcanion hylifedd hirdymor y Gronfa.

Nodwyd bod y Datganiad yn ddogfen faith a thechnegol, ac wedi ei pharatoi mewn ymgynghoriad manwl gyda Hymans a swyddogion y Gronfa. Eglurwyd, fel rhan o'r adolygiad, bod rhaid i'r awdurdod gweinyddol ymgynghori gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o'r cynllun, gydag actiwari, ymgynghorwyr y Gronfa ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas. Yn unol â'r gofyn, cyflwynwyd y Datganiad (drafft) i'r Pwyllgor Pensiynau ym mis Chwefror 2026, i'r Bwrdd Pensiwn ac i holl gyflogwyr y Gronfa. Adroddwyd nad oedd unrhyw adborth wedi ei dderbyn gan y cyflogwyr, ond bod yr actiwari wedi awgrymu un newid / ychwnaegiad i Ch4 ynglŷn ag adrodd ar y Bwlch Pensiwn rhwng Rhywiau

Diolchwyd am yr adroddiad – er yn ddogfen faith, bod y cynnwys yn syml a dealladwy.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Cyllido

7. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol y Pwyllgor i fabwysiadu'r Strategaeth Buddsoddi a chadarnhau trefniadau cronni.

Amlygwyd ei bod yn ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi'r Datganiad Strategaeth, ac amserol fyddai gosod dyraniad asedau strategol newydd yn dilyn y prisiad teirblynyddod. Nodwyd bod y Datganiad Strategaeth Buddsoddi wedi ei baratoi mewn ymgynghoriad â Hymans Robertson.

Amlinellwyd bod y strategaeth yn tanlinellu'r cydbwysedd rhwng risg a dychweliadau y mae'r gronfa ei hangen gan amlinellu'r dyraniad asedau strategol. Cyfeiriwyd at wybodaeth am y Cwmni Rheoli Buddsoddi IM Co (strwythur a llywodraethiant y cwmni fydd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2026), buddsoddi cyfrifol, hawliau pleidleisio ac ymgysylltu - elfennau pwysig yng ngweithrediad y Gronfa.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi

8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi, yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2026/27, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2026/27 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar y 5ed o Fawrth 2026.

Eglurwyd, ar hyn o bryd, bod yr holl arian sydd dros ben yn y Gronfa (sef arian nad yw'n cael ei fuddsoddi gyda Rheolwyr Buddsoddi) yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn.

Adroddwyd bod cod ymarfer CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd cyn ceisio enillion neu'r cynnyrch uchaf, a tharo cydbwysedd gyda'r ffactorau yma. Cyfeiriwyd at y sectorau sydd wedi'u cymeradwyo i fuddsoddi ynddynt ynghyd a'r terfynau buddsoddi ar eu cyfer e.e. llywodraeth leol, awdurdodau lleol, banciau, cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun. Tynnwyd sylw at y rhagolygon oedd wedi eu paratoi gan ymgynghorwyr ariannol y Cyngor, Arlingclose, y math o fuddsoddiadau roedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2025 ac at ofynion ychnwaegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2026/27, fel ei addaswyd i bwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2026 ymlaen.**

9. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn cynnwys Cynllun Busnes y Bartneriaeth. Mynegwyd yn arferol, bod y Bartneriaeth yn creu Cynllun Busnes blynyddol am gyfnod o dair blynedd, ond bod cynllun eleni yn Gynllun Busnes Trosiannol ar gyfer blwyddyn gyntaf Cwmni Rheoli Buddsoddiadau WPP IM Co (cwmni annibynnol fydd yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2026). Bydd y ddogfen hon yn cael ei monitro, ei hadolygu a'i chytuno yn ffurfiol yn flynyddol. Ategwyd bod y Cynllun Busnes wedi ei gymeradwyo gan Cyd Bwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth ar y 10fed o Fawrth 2026 a bod gofyn i'r wyth Awdurdod sydd yn rhan o'r Bartneriaeth gymeradwyo'r Cynllun.

Yng nghyd-destun trefniadau newydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, eglurwyd mai'r Awdurdodau Cyfansoddol yw cyfranddalwyr a chleientiaid y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (WPP IM Co), ac y bydd gan WPP IM Co gynllun busnes a chyllideb ar wahân (gweler eitem 10). Ategwyd y bydd rôl newydd y Bartneriaeth fel cyfranddalwyr a chleientiaid, yn cynnwys goruchwyllo WPP IM Co, yn ogystal â pharhau i weithredu agweddau'r Cytundeb Rhyng Awdurdod (IAA) diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 5ed o Fawrth 2026; cyfeiriwyd at strwythur newydd llywodraethu PPC o'r 1af o Ebrill 2026.

Adroddwyd bod y cynllun busnes hefyd yn manylu ar sut mae'r Bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau gan amlinellu blaenoriaethau ac amcanion Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth a'r gyllideb ariannol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a phryd fydd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (WPP IM Co) yn dechrau gweithredu, nodwyd mai'r 1af o Ebrill 2026 yw'r dyddiad swyddogol gyda chyfnod trosiannol wrth i'r cwmni sefydlu trefniadau ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha mor aml fydd y Cynllun Busnes yn cael ei adolygu, o ystyried y trefniadau newydd o'r 1af o Ebrill 2026, nodwyd y bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn adolygiad chwarterol gan PPC, ac adolygiad chwarterol gan y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau. Ategwyd y bydd cyswllt parhaus gyda swyddogion PPC ac WPP IM Co, gyda bwriad o rannu gwybodaeth / diweddariad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

10. CYNLLUN BUSNES CYCHWYNNOL WPP INVESTMENT MANAGEMENT COMPANY LIMITED - BLWYDDYN ARIANNOL 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn cynnwys Cynllun Busnes Cychwynnol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (WPP IM Co). Eglurwyd, o'r 1af o Ebrill 2026, bydd WPP Investment Management Company Limited (WPP IM Co) yn gyfrifol am gyngor buddsoddi a gweithredu buddsoddiadau, gwerth mwy na £25 biliwn, ar ran wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Gymru. Ategwyd mai'r Cynllun Busnes Cychwynnol yma yw'r cyfrif ffurfiol cyntaf mae'r Awdurdodau wedi ei dderbyn ac fe gymeradwywyd y Cynllun Busnes gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar y 10fed o Fawrth 2026.

Amlygwyd bod y Cynllun Busnes yn manylu ar sut fydd y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn mynd i gyflawni'r amcanion strategol (dyletswydd ymddiriedolwyr a

Iles Aelodau; Gweithredu buddsoddiad; Cyngor buddsoddi; Buddsoddiad cyfrifol a stiwardiaeth; Buddsoddiad lleol a Chymru; Llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder; Cydymffurfiaeth reoleiddiol; Datblygu tîm a gallu), ynghyd â gosod cynllun llywodraethu a goruchwyllo, crynodeb ariannol, dull rheoli buddsoddiadau, gweithrediadau a staffio, rheoli risg a chydymffurfiaeth a buddsoddiad cyfrifol mewn lle.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod costau staffio (amcangyfrif £4.2m) yn sylweddol uwch na gwariant staffio'r Bartneriaeth ar hyn o bryd, ac a oedd ffigyrau cyfatebol ar gael, nodwyd bod y costau presennol yn isel iawn, ond y bydd cynnydd sylweddol yn y cyfnod trosiannol wrth sefydlu'r trefniadau newydd. Y bwriad yw, wrth i'r arbenigedd gael ei sefydlu yn fewnol, y bydd costau ffioedd Rheolwyr Buddsoddi allanol yn gostwng yn sylweddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thaliadau budd (dividend) i Aelodau Bwrdd y Cyfranddalwyr, nodwyd mai cyflogau fydd yn cael eu talu ac nid bonws. Adroddwyd bod Bwrdd Cysgodol wedi ei sefydlu ers cofrestru Cwmni Rheoli Buddsoddiadau WPP IM Co gyda'r Tŷ Cwmni'oedd. Ategwyd mai'r wyth Awdurdod Cyfansoddiadol yw'r Cyfranddalwyr ac felly pe bai buddion i'w rhannu, i'r Cynghorau unigol bydd y rhain yn cael eu talu. Nodwyd hefyd bod bwriad sefydlu Polisi Tâl (Remuneration Policy). Mae penodiadau'r Bwrdd IM Co yn y broses o dderbyn sêl bendith gan y Cofrestr Gwasanaethau Ariannol (FCA).

Mewn ymateb i sylw bod angen Cynllun Strategol / dogfen ffurfiol fyddai'n amlinellu cyfeiriad WPP IM Co i leihau costau wedi'r cyfnod trawsnewid, nodwyd bod bwriad cyflogi 12 aelod o staff ym mis Ebrill, gyda'r ffigwr yn cynyddu i 24 erbyn mis Rhagfyr 2026 - cynnydd tebygol mewn costau. Er hynny, nodwyd bod disgwylid i gostau Rheolwr Buddsoddi / Cronfeydd allanol leihau yn y tymor hir – amser a ddengys; Dyhead y Llywodraeth yw lleihau'r ffioedd.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

Nodyn:

Cais am Gynllun Strategol / ddogfen ffurfiol fyddai'n amlinellu cyfeiriad WPP IM Co i leihau costau wedi'r cyfnod trawsnewid

11. DIWEDDARIAD HYFFORDDIANT 2025/26 A CHYNLLUN HYFFORDDI 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn diweddarau'r Aelodau ar gynllun hyfforddiant 2025/26 a gofyn iddynt gymeradwyo cynllun hyfforddiant arfaethedig 2026/27. Ystyriwyd bod cynllun 2025/26 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i'r Aelodau am fynychu amryw o sesiynau hyfforddiant oedd yn cynnig ystod eang o bynciau, yn ogystal â seminarau, cynadleddau a gweminarau allanol perthnasol oedd yn cael eu canmol fel rhai defnyddiol ac amserol.

Amlygwyd nad oedd Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol, sydd fel arfer yn cael ei gydlynu gan Hymans Robertson i feincnodi lefelau gwybodaeth yr Aelodau, wedi ei gynnal yn ystod 2025 oherwydd yr angen i adolygu'r fframwaith yn sgil diwygiadau llywodraethu Addas ar Gyfer y Dyfodol, cryfhau disgwylidau o dan y Côd Cyffredinol a datblygiadau mewn pwlio buddsoddiadau, buddsoddi cyfrifol a safonau llywodraethu. Unwaith y bydd yr Asesiad diwygiedig wedi ei gyhoeddi bydd hyn yn galluogi'r Gronfa i feincnodi lefelau gwybodaeth yn genedlaethol, nodi anghenion hyfforddi sy'n dod i'r amlwg a llywio iteriadau y Cynllun Hyfforddi a'r Strategaeth Llywodraethu a Hyfforddiant i'r dyfodol.

Wrth gyflwyno Cynllun Hyfforddiant 2026/27, ac yng nghyd-destun hyfforddiant craidd, nodwyd bod y Cynllun yn adlewyrchu'r bwriad i Bartneriaeth Pensiwn Cymru barhau fel prif ddarparwr hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn. Fodd bynnag, oherwydd y newidiadau parhaus o fewn y trefniadau pwlio, nid oedd unrhyw sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu. Ategwyd, unwaith bydd y strwythur a'r trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi'u cwblhau, rhagwelir bydd rhaglen o sesiynau yn cael eu trefnu. Y disgwyliad yw y bydd y sesiynau hyn yn cwmpasu'r meysydd allweddol.

Cyfeiriwyd at gynadleddau sydd wedi eu nodi ar gyfer 2026/27 gan ategu disgwyliad i'r Aelodau sydd yn mynychu gwblhau ffurflen adborth strwythuredig i'w chynnwys ar raglen cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau dilynol. Anogwyd yr Aelodau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ychwanegol megis modiwlau dysgu ar lein a dysgu hunangyfeiriedig.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Yn gwerthfawrogi rhaglen hyfforddiant ffurfiol a chynhwysfawr
- Yn croesawu'r cyfleoedd hyfforddiant, yn enwedig i aelodau newydd
- Awgrym i gynnal sesiynau un i un (mewnol)
- Awgrym i gyflwyno sesiwn dilyniant i'r hyfforddiant Hanfodion (wedi blwyddyn o'r dyddiad cwblhau)
- Bod Cynhadledd LAPFF i'w chynnal 2-4 Rhagfyr 2026

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth am yr hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod 2025/26**
- **Croesawu'r cyfleoedd sydd yn cael eu cynnig**
- **Nodi absenoldeb yr Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol 2025 a'r adolygiad arfaethedig o'r fframwaith**
- **Cymeradwyo Cynllun Hyfforddi 2026/27**

Nodyn

Cynnal sesiynau un i un gyda'r Aelodau Newydd

12. ADRODDIAD PRISIAD Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad prisiad gan y Rheolwr Pensiynau. Adroddwyd bod y swyddogion wedi bod yn cydweithio gyda'r actiwari Hymans Robertson dros y flwyddyn diwethaf ar brisiad tair blynedd Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurwyd mai pwrpas y prisiad yw sicrhau bod gan y Gronfa strategaeth ariannu gadarn i fodloni rhwymedigaethau buddion hirdymor wrth osod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2029.

Cyfeiriwyd at sefyllfa ariannol iach y Gronfa ac at gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr fydd yn gostwng i 16.2% o'r cyflog (o gymharu â 21.8% yn 2022). Tynnwyd sylw hefyd at ofniad newydd ar gyfer Prisiad 2025 sef adrodd ar y Bwlch Pensiwn rhwng y Rhywiau. Nodwyd y bydd adolygiad i newidiadau yn y rheoliadau i geisio lleihau'r bwlch sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddylanwadu fawr gan y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sydd yn adlewyrchu gwahanol batrymau gwaith fel gwaith rhan-amser.

Adolygwyd y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad hwn yn mis Ionawr 2025 ac fe'i cymeradwywyd yn Mhwyllgor Pensiynau Mawrth 2025. Ategwyd, yn dilyn ymgynghoriadau â chyflogwyr, bod y Datganiad Strategaeth Ariannu terfynol wedi ei gymeradwyo yn y cyfarfod yma (item 6), a bod y prisiad ffurfiol nesaf wedi ei drefnu ar gyfer 31 Mawrth 2028.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pha mor gyfreithlon yw edrych ar wahanol ryweddau ar wahân, nodwyd gyda'r mater yn un cenedlaethol y tebygrwydd yw bod barn gyfreithiol wedi ei dderbyn ar y mater. Ategwyd mai'r un yw'r ganran cyfraniadau i bawb, ond bod yr anghydraddoldeb yn deillio o ferched gan amlaf yn derbyn llai o enillion oherwydd gwaith rhan-amser, a seibiannau gyrfa ar gyfer mamolaeth / gofalu, sy'n arwain at gyfraniadau pensiwn llai; Bydd angen mynd i'r afael â'r bwloch pensiwn rhywedd drwy hyrwyddo cyflog cyfartal a cheisio mwy o hyblygrwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ystyr 'profiad aelodaeth' (membership experience) yn y tabl 'Newidiadau ers y gwerthusiad diwethaf - sefyllfa ariannu', (£31m o leihau gwarged / cynyddu diffyg), nodwyd bod hyn yn amlygu'r profiad real o gymharu a disgwyliadau y gwerthusiad diwethaf.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaedig er y budd cyhoeddus.

14. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 31 RHAGFYR 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar berfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd hyd at Rhagfyr 2025. Nodwyd, yn y gorfennol bod y perfformiad yn cael ei drafod mewn panel buddsoddi gyda'r Rheolwyr Buddsoddi ond gyda newid i drefniadau wrth sefydlu Cwmni Rheoli Buddsoddi WPP IM Co, bydd y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y perfformiad hyd nes bydd y Cwmni Buddsoddi yn dechrau adrodd i'r Pwyllgor.

Trafodwyd yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Yn llongyfarch y swyddogion am y gwaith da sydd yn cael ei wneud**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:10

CYFARFOD	Y PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	6 GORFFENNAF 2026
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	DERBYN A NODI'R WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Dyma adroddiad rheolaidd sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Cyfarfu corff gwneud penderfyniadau PPC, y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI), yn ffurfiol ddiwethaf ar 10 Mawrth 2026. O ganlyniad i newidiadau Addas i'r Dyfodol, bydd y trefniadau llywodraethu yn newid a hwn oedd y CBLI olaf yn ei fformat gwreiddiol.

2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26 wedi'i adolygu a gellir dod o hyd iddo yn Atodiad 2.

3. CYNLLUN BUSNES PPC 2026/27

Mae cynllun busnes gweithredol trosiannol wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod. (Atodiad 3)

Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu PPC
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion PPC
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes

Cymeradwywyd y Cynllun Busnes hwn gan Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 16 Mawrth 2026, ac mae wedi cael ei gymeradwyo gan bob un o'r 8 awdurdod cyfansoddol.

4. CYNLLUN BUSNES WPP IM Co 2026/27

Mae IM Co wedi drafftio cynllun busnes cychwynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, sy'n manylu ar:

- Amcanion strategol
- Llywodraethu a goruchwyllo
- Crynodeb ariannol
- Dull rheoli buddsoddiadau
- Gweithrediadau a staffio
- Rheoli risg a chydymffurfiaeth
- Buddsoddi Cyfrifol

Cyflwynodd Rob Lamb, Prif Swyddog Gweithredol IM Co, y Cynllun Busnes (Atodiad 4) a gymeradwywyd gan y CBLI.

Bydd cynllun busnes pum mlynedd yn cael ei gynhyrchu cyn 1 Ebrill 2027 i gwmpasu'r pum mlynedd ariannol nesaf.

Cymeradwywyd y Cynllun Busnes hwn gan Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 16 Mawrth 2026, ac mae wedi cael ei gymeradwyo gan bob un o'r 8 awdurdod cyfansoddol.

5. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi o dan Atodiad 5.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg ar yr ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi WPP ar 31^{ain} Rhagfyr 2025.

Ar hyn o bryd mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd amlygiad i saith o'r deg is-gronfa ac ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gwerthoedd a chanran yr is-gronfa fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-eang - £426.7m (11%)**
- **Twf Byd-eang - £397.2m (10%)**
- **Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg - £80.7m (23%)**
- **Credyd Aml-Asedau - £260.8m (29%)**
- **Bond Enillion Absoliwt - £548.4m (84%)**
- **Cronfa Credyd Byd-eang - £356.8m (31%)**
- **Y Gronfa Ecwiti Cynaliadwy - £366.4m (21%)**

6. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31 RHAGFYR 2025

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 6.

Cododd Mynegai Net y Byd MSCI 3.1% (USD) dros y pedwerydd chwarter. Gwelodd pob rhanbarth enillion mewn diwedd anwadal ond yn y pen draw cadarnhaol i'r flwyddyn. Canada, Ewrop, y DU a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg oedd y marchnadoedd sy'n perfformio orau. Mewn cyferbyniad, mae'r Unol Daleithiau yn tanberfformio pob rhanbarth arall a'r mynegai byd-eang, wedi'i effeithio gan wendid mewn enwau technoleg wrth i amheuaeth dyfu dros y manteision a'r enillion disgwylidig o fuddsoddiad enfawr mewn capasiti deallusrwydd artiffisial (AI). Gostyngodd prisiau olew, gan ddod â'r cyfnod yn is na \$ 60 y gasgen yng nghanol pryderon gorgyflenwi. Cododd aur gan ddigidau dwbl, ar ôl torri trwy'r trothwy \$ 4,000 y troy owns ym mis Hydref. Mae'r Gronfa Ffederal (Fed) wedi torri ei gyfradd llog meincnod ddwywaith gan 25 pwynt sylfaen (bps). Torrodd Banc Lloegr a Banc Canada gyfraddau llog 25 bps, tra bod Banc Canolog Ewrop (ECB) wedi gadael cyfraddau heb newid. Tua diwedd y flwyddyn, cododd Banc Japan (BoJ) ei gyfradd bolisi gan 25 bps i 0.75%, uchafswm 30 mlynedd.

Yn y DU, gostyngodd cynnyrch gilt 10 mlynedd ym mis Hydref ar ddisgwyliadau cynyddol o doriadau cyfradd a negeseuon cyfeillgar i'r farchnad gan y Trysorlys. Sylwadau gan y llywodraethwr BoE, Andrew Bailey, a ddywedodd y gallai marchnad swyddi wanhau helpu i leihau chwyddiant, hefyd wedi helpu gilts i rasio. Roedd ffigurau chwyddiant annog yn cynyddu optimistiaeth dros doriadau cyfraddau, gan anfon cynnyrch 10 mlynedd yn is. Wrth i'r BoE gynnal cyfraddau ym mis Tachwedd, taniodd y Llywodraethwr Bailey ddisgwyliadau o doriad cyfradd ym mis Rhagfyr, gan nodi bod risgiau wedi cilio tra bod chwyddiant Medi 3.8% yn debygol o fod yr uchafbwynt. Weak jobs data and disappointing GDP growth strengthened expectations of an imminent rate cut. Gostyngodd gilts yn sydyn ar ôl penderfyniad U-turn ymddangosiadol y Canghellor Rachel Reeves i ddileu cynnydd mewn treth incwm yn y Gyllideb, a gododd bryderon am y rhagolygon cyllidol. Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb gostyngodd cynnyrch gilt wrth i fuddsoddwyr gael eu cysuro gan y penderfyniad i godi'r byffer cyllidol yn sylweddol i tua £22 biliwn o £9 biliwn. Roedd y Gyllideb yn cynnwys £26 biliwn o godiadau treth ond nid oedd ganddi fesurau o blaid twf. Yn ddiweddarach, dangosodd data newydd fod CMC wedi gostwng yn annisgwyl gan 0.1% MoM ym mis Hydref. Ysgogodd hyn, a chwyddiant gwell na'r disgwyl ym mis Tachwedd (ar 3.2% YoY o 3.6%) ostyngiad mewn cynnyrch 10 mlynedd. Wrth i'r BoE dorri cyfraddau ym mis Rhagfyr, roedd y bleidlais fwyafrif cul 5:4 yn nodi pryderon chwyddiant parhaus sy'n annog masnachwyr i ail-raddnodi disgwyliadau o doriadau cyfraddau pellach. Dros y chwarter gostyngodd y cynnyrch ar giltiau meincnod 10 mlynedd 22 bps i 4.48%.

7. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT

Penodwyd Russell Investments yn Ddyrannwr Credyd Preifat PPC ym mis Mawrth 2022, a lanswyd y rhaglen Buddsoddi Credyd Preifat ym mis Ebrill 2023. Darparodd Russell Investments ddiweddariad cynnydd Credyd Preifat (Atodiad 7).

8. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL A STIWARDIAETH

Dros y 12 mis diwethaf, mae PPC wedi cynnal adolygiad manwl o'i ymagwedd at eithriadau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Polisiâu Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth wedi'u diweddarau yn unol â hynny.

Bydd y newidiadau yn gweld gwaharddiadau yn cael eu cymhwyso i fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n ymwneud â:

- echdynnu / cynhyrchu pŵer o lo thermol;
- echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol;
- ymwneud â chynhyrchu arfau dadleuol; ac
- cwmnïau sy'n torri normau byd-eang yn barhaus.

Mae'r polisiâu wedi'u diweddarau wedi'u llwytho i fyny ar wefan PPC.

Derbyniwyd nifer o gynigion o rybudd gan nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Gwynedd. Nodwyd a thrafodwyd y rhain yng nghyfarfod CBLI 8 Rhagfyr 2025. Mae'r ymateb a anfonwyd at yr awdurdodau cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 8.

9. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r wybodaeth.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLI

Dyddiad CBLI: Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2026

Lleoliad: Cyfarfod hybrid, Caerdydd

Cadeirydd: Cynghorydd Peter Lewis, Cadeirydd Cronfa Bensiwn Powys

Eitem agenda	Manylion
Ymddiheuriadau	Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Hywel, Gwynedd. Roedd y Cynghorydd John Pughe Roberts yn dirprwyo ar ei rhan.
Diweddariad Awdurdod Lletya	<p>Rhoddodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLI. Rhoddodd Rachel Barrack o Hymans ddiweddariad mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol.</p> <p>Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2025/26 ar 31 Rhagfyr 2025 (ynghlwm).</p>
Cynllun Busnes PPC 2026/27	<p>Mae cynllun busnes gweithredol trosiannol wedi'i ddrafftio yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.</p> <p>Pwrpas y cynllun busnes yw:</p> <ul style="list-style-type: none">• Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC• Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion PPC• Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes <p>Cyflwynodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya Gynllun Busnes 2026/27 (ynghlwm) a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Cynllun Busnes bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.</p>
Cynllun Busnes WPP IM Co 2026/27	<p>WPP Investment Management Company Limited (IM Co) yw'r cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer PPC. Sefydlwyd IM Co</p>

	<p>ym mis Awst 2025 ac mae ar y trywydd iawn i gael awdurdodiad FCA erbyn 31 Mawrth 2026.</p> <p>Mae IM Co wedi drafftio cynllun busnes cychwynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, sy'n manylu ar blaenoriaethau'r IM Co:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcanion Strategol • Llywodraethu a goruchwyllo • Crynodeb ariannol • Dull rheoli buddsoddiadau • Staffio a gweithrediadau • Rheoli risg a chydymffurfiaeth • Buddsoddi Cyfrifol <p>Cyflwynodd Rob Lamb, Prif Swyddog Gweithredol IM Co y Cynllun busnes (ynghlwm) a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Cynllun Busnes bellach wedi'i anfon at bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.</p> <p>Bydd Cynllun Busnes pum mlynedd yn cael ei gynhyrchu cyn 1 Ebrill 2027 i gwmpasu'r pum mlynedd ariannol nesaf.</p>
<p>Cofrestr Risg Adolygiad Ch1 2026</p>	<p>Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI bob chwarter. Mae gan yr OWG Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg ac adolygiadau chwarterol o'r ddogfen.</p> <p>Yn ystod Ch1 2026, cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau yn adran Llywodraethu a Rheoleiddio o'r Gofrestr Risg, risgiau G1 i G7 a hefyd risg G16.</p> <p>Cyflwynodd Hymans yr adran wedi'i diweddarau o'r Gofrestr Risg a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC.</p>
<p>Diweddariad Gweithredwr</p>	<p>Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddaru chwarterol ar 31 Rhagfyr 2025 (ynghlwm). Mae hyn yn rhoi diweddariad ar is-gronfeydd PPC a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu.</p>
<p>Perfformiad Adroddiadau fel ar 31 Rhagfyr 2025</p>	<p>Cyflwynodd Russell Investments bapur cryno perfformiad Ch4 2025 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2025.</p>

<p>Diweddariad Marchnadoedd Preifat - Credyd Preifat</p>	<p>Penodwyd Russell Investments yn Ddyrannwr Credyd Preifat PPC ym mis Mawrth 2022, a lansiodd y rhaglen Buddsoddi Credyd Preifat ym mis Ebrill 2023. Rhoddodd Russell Investments ddiweddariad cynnydd Credyd Preifat (ynghlwm).</p>
<p>Diweddariadau polisi – Buddsoddi Cyfrifol a Polisiâu Stiwardiaeth</p>	<p>Dros y 12 mis diwethaf, mae PPC wedi cynnal adolygiad manwl o'i agwedd at eithriadau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Polisiâu Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth wedi'u diweddarau yn unol â hynny.</p> <p>Bydd y newidiadau yn gweld gwaharddiadau yn cael eu cymhwyso i fuddsoddiadau mewn cwmnïau sy'n ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • echdynnu / cynhyrchu pŵer o lo thermol; • echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol; • ymwneud â chynhyrchu arfau dadleuol; a • cwmnïau sy'n torri normau byd-eang yn barhaus. <p>Cyflwynodd Hymans y polisiâu wedi'u diweddarau a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r polisiâu wedi'u diweddarau wedi'u llwytho i fyny ar wefan PPC.</p>
<p>Eitemau sydd wedi'u heithrio – Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat y cyfarfod.</p>	
<p>Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd</p>	<p>Bob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is-gronfeydd y WPP. Ar gyfer Ch4 2025 (chwarter sy'n dod i ben 31 Rhagfyr 2025), cynhyrchwyd adroddiadau Sterling Credit, Global Credit a Global Government Bond.</p> <p>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r JGC.</p>
<p>Robeco Adroddiad Ymgysylltu – Ch4 2025</p>	<p>Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran y WPP. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Ch4 2025. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Hawliau Cyfranddalwyr.</p>

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLI 10 Mawrth 2026 isod:

[Agenda for Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru on Dydd Mawrth, 10fed Mawrth, 2026, 10.00 yb](#)

Cyfeiriad gwefan PPC - [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref](#)

Cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2026 – Cyfarfod rhithiol, trwy Zoom



Cynllun Busnes
Partneriaeth Pensiwn Cymru
2025-2026
Adolygiad Ch3
(Ebrill i Rhagfyr 2025)

Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> Proses gaffael darparwyr Gwasanaethau Cyfreithiol 	Do	Cymeradwywyd yn cyfarfod CBLI ym mis Medi 2025
<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni Prosiect yr Wyddfa 	Yn mynd rhagddo	
<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau PPC 	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg 	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad 	Parhaus	

Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol 	Yn mynd rhagddo	Lawnsiwyd Cronfa Schroders DU ar 2 Chwefror 2026
<ul style="list-style-type: none"> Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol 	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> Ystyried cyfleoedd a gofynion PCC yn y DU, lleol / effaith 	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> Esblygiad Cronfeydd Ecwiti, Incwm Sefydlog a Goddefol cyfredol 	Parhaus	
<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen 	Parhaus	

Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa 	Parhaus	

Adrodd am Fuddsoddi

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat 	Yn mynd rhagddo	Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat
<ul style="list-style-type: none"> Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth 	Do	Adroddiad 2024/25 wedi'i gyflwyno 31 Hydref 2025
<ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD 	Do	Cyhoeddwyd yr adroddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y broses ym mis Chwefror 2026
Fe wnaeth ecwiti'r DU berfformio'n well na'r mynegai byd-eang a phob marchnad arall ac eithrio Canada, a yrrwyd yn uwch gan gwmnïau gofal iechyd (AstraZeneca) a deunyddiau (Fresnillo). Mae marchnad y DU hefyd wedi elwa o ddiffyg cwmnïau technoleg mawr yng nghanol pryderon cynyddol am brisiadau uchel ac ofnau o swigen AI. Syrthiodd cyfranddaliadau ganol mis Tachwedd, gan adlewyrchu tueddiadau mewn manau eraill, cyn adennill eu momentwm cadarnhaol. Yn y cyfamser, roedd dryswch dros Gyllideb mis Tachwedd yn pwyso mewn ymateb i ddiffyg penderfyniad amlwg o fewn y llywodraeth. Dim ond ysgogi ymateb tawel yn y farchnad wnaeth y Gyllideb ei hun er bod cyfranogwyr yn croesawu dyblu'r hyblygrwydd (*headroom*) cyllidol. I raddau helaeth, y mater o godi trethi a gododd drethi £26 biliwn yn rhannol trwy rewi trothwyon treth incwm personol. Yn yr economi, anogodd chwyddiant, gan leddfu ym mis Tachwedd i 3.2% YoY o 3.6%, tra bod chwyddiant craidd wedi arafu i 3.2% o 3.4%. Fe wnaeth PMIs hefyd wella yn fras er bod y sector adeiladu yn methu. Mewn arwyddion eraill o wendid, gostyngodd GDP yn annisgwyl o 0.1% MoM ym mis Hydref, a effeithiwyd yn rhannol oherwydd bod y gwneuthurwr ceir, Jaguar Land Rover, wedi dod â chynhyrchu i ben ar ddiwedd yr haf. Cynyddodd y gyfradd ddiweithdra i 5.1% yn y tri mis hyd at fis Hydref, i fyny o 5.0% yn y cyfnod blaenorol ac arafodd twf cyflog. Yn ogystal, roedd gwerthiannau manwerthu yn wan wrth i gwsmeriaid ddal gwariant yn ôl cyn y Gyllideb.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	4.7	19.5	14.0	9.5	7.6
Net	4.6	19.1	13.6	9.2	7.2
FTSE All Share	6.4	24.0	13.6	11.7	8.3
Gwarged enillion (gros)	-1.7	-4.5	0.4	-2.2	-0.7
Enillion dros ben (Net)	-1.8	-4.9	0.0	-2.5	-1.1

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Meincnod: Mynegai FTSE All-Share

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

*Mae ffigyrau gwarged cychwynnol fel Russel Investments yn cysoni anghysondebau gyda NT

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa danberfformio yn erbyn yr enillion meincnod cadarnhaol yn y pedwerydd chwarter.

Tynnodd gogwydd y Gronfa tuag at stociau cyfalafu bach o enillion cymharol mewn cyfnod lle arweiniodd cwmnïau gwerth cyfalafu mawr y farchnad yn uwch. Roedd safle sector a dewis stoc yn negyddol. Roedd hyn yn cynnwys safle a dewis o fewn elfennau ariannol (tanbwysau), gofal iechyd (tanbwysau), deunyddiau (tanbwysau) a gwasanaethau cyfathrebu (gorbwysau). Roedd tanbwysau i AstraZeneca a gorbwysau i AJ Bell ac Auto Trader yn ddi-dynwyr allweddol ar lefel stoc. Fodd bynnag, fe wnaeth dewis stoc effeithiol o fewn diwydiannau a disgresiwn defnyddwyr gyfyngu ar danberfformiad ychwanegol. Tanategwyd hyn gan danbwysau i BAE Systems a RELX. Ar wahân i Fidelity, tanberfformiodd y rhan fwyaf o reolwyr gwaelodol y chwarter hwn, a Baillie Gifford oedd y perfformiwr gwannaf.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Yn yr Unol Daleithiau, yn gynnar yn y chwarter roedd ofnau o ryfel masnach newydd rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina, ac roedd cau'r llywodraeth yn pwysu ar sentiment. Fe wnaeth yr ansicrwydd a achoswyd gan yr oedi mewn rhyddhau data economaidd effeithio ar allu'r farchnad i farnu symudiad nesaf y Fed ar gyfraddau llog. Ar ôl toriad cyfradd y Fed ym mis Hydref, cryfhaodd sylwadau gan swyddogion y Fed ddisgwyliadau o doriad cyfradd ym mis Rhagfyr a lleisiwyd pryderon am gryfder y farchnad lafur. Er bod y Fed wedi torri cyfraddau fel y disgwylir ym mis Rhagfyr, roedd y cyfarfod yn gynhennus, gan ddatgelu safbwyntiau gwrthwynebol ynghylch a ddylid blaenoriaethu mynd i'r afael â marchnad swyddi sy'n gwanhau neu chwyddiant uchel. Dangosodd oedi cyflogau 'non-farm' ar gyfer mis Hydref bod 105,000 o swyddi wedi'u colli; llawer gwaeth na'r gostyngiad o 25,000 a ddisgwyliwyd, yn bennaf oherwydd toriadau sylweddol i swyddi llywodraeth ffederal. Er bod 64,000 o swyddi wedi'u hychwanegu ym mis Tachwedd, uwchlaw'r amcangyfrif, cododd diweithdra i fyny i 4.6% y mis hwnnw, yr uchaf mewn dros bedair blynedd. Yn y cyfamser, gostyngodd chwyddiant ym mis Tachwedd i 2.7% YoY, ymhell yn is na'r rhagolwg o 3.1% a 3.0% ym mis Medi (nid oedd unrhyw ddata mis Hydref ar gael oherwydd bod y llywodraeth wedi cau). Chwyddiant craidd oedd 2.6% yn erbyn y disgwyliad o 3.0%. Dros y chwarter, cododd y cynnyrch ar Drysorlys 10 mlynedd ddau bps i 4.17%.

Roedd marchnadoedd credyd yn gymharol ddi-effaith dros y chwarter gyda 'spreads' yn parhau i fod yn dynn. Dyled marchnad datblygol arian cyfred (EMD) oedd y perfformiwr gorau gyda 'spreads' yn tynhau o 27 bps i 231. Yn gyffredinol, perfformiodd cynnyrch uchel yn well na graddfa buddsoddi mewn marchnad a welodd 'spreads' cynnyrch uchel byd-eang yn culhau o 17 bps i 291. Ni fu newid helaeth yn 'spreads' cynnyrch uchel yr Unol Daleithiau ac Ewrop. Yn y farchnad graddfa fuddsoddi, culhaodd 'spreads' Ewrop a'r DU yn gymedrol (-3 bps i 66; -2 i bps i 68, yn y drefn honno). Lledaenodd 'spreads' graddfa fuddsoddi yr Unol Daleithiau 3 bps i 73 tra bod 'spread' graddfa fuddsoddi byd-eang yn fach (1 bps i 72). Cododd EMD arian cyfred, fel y'i mesurir gan Fynegai Byd-eang JPM EMBI 3.0% tra bod EMD arian cyfred lleol, fel y'i mesurir gan JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index, wedi cynyddu 3.3%.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.70%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	0.6	5.9	3.7	-0.6	-0.3
Net	0.5	5.6	3.5	-0.8	-0.5
Mynegai FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)	0.7	3.7	3.7	-1.2	-1.2
Gwarged enillion (gros)	-0.1	2.2	0.0	0.6	0.9
Enillion dros ben (Net)	-0.2	1.9	-0.2	0.4	0.7

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Meincnod: FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol.

Roedd safle i gyfraddau yn Siapan - yn enwedig tanbwysau i aeddfedrwydd 5 a 10 mlynedd - yn gyfrannwr allweddol y chwarter hwn. Fe wnaeth pecyn symbylu llywodraeth Siapan a chynnydd mewn cyfradd llog helpu i wthio cynnyrch i'w uchaf ers diwedd y 1990au. Gwobrwywyd safle deinamig tuag at fondiau craidd ardal yr Ewro ac i giltiau'r DU. Cyfrannodd amlygiad i farchnadoedd llai hefyd y chwarter hwn, gan gynnwys gorbwysau i gyfraddau yng Ngwlad Pwyl ac Indonesia a safle deinamig yng Ngholombia. Roedd gorbwysau i gyfraddau 10 mlynedd De Affrica yn gyfrannwr pellach. Roedd gorbwysau i filiau T, byr-ddyddiedig yr Unol Daleithiau a gorbwysau i gyfraddau yn Awstralia yn pwysu ar berfformiad ychwanegol.

Cronfa Credyd Byd-Eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.75%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	0.9	6.6	5.6	-0.3	0.2
Net	0.8	6.4	5.4	-0.4	0.0
Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)	0.9	6.7	5.8	-0.2	0.2
Gwarged enillion (gros)	0.0	-0.1	-0.2	-0.1	0.0
Enillion dros ben (Net)	-0.1	-0.2	-0.4	-0.2	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Meincnod: Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa danberfformio'r enillion meincnod dros y pedwerydd chwarter.

Roedd marchnadoedd credyd yn gymharol ddi-ffaith dros y chwarter gyda 'spreads' yn parhau i fod yn dynn. Yn gyffredinol, perfformiodd cynnyrch uchel yn well na graddfa buddsoddi mewn marchnad a welodd 'spreads' cynnyrch uchel byd-eang yn culhau gan ddigidau dwbl. Er bod y Gronfa wedi elwa o ddyraniadau mewn credyd corfforaethol, cafodd hyn ei wrthbwyso gan effeithiau negyddol mewn manau eraill. Yng nghredyd yr Unol Daleithiau, roedd amlygiad gorbwysau i ddiwydiannau cynnyrch uchel yn gyfrannwr cadarnhaol nodedig. Mewn credyd Ewropeaidd, roedd amlygiad gorbwysau i elfennau ariannol a diwydiannau cynnyrch uchel yn effeithiol tra bod gorbwysau i gyfleustodau gradd buddsoddi wedi tynnu sylw. Bu tanbwysau i elfennau ariannol gradd buddsoddi yn y DU yn ddefnyddiol. Gwrthbwyso'r cyfraniadau hyn oedd effeithiau negyddol o amlygiad tanbwysau i ddyled marchnadoedd datblygol yn America Ladin ac amlygiad tanbwysau i ddyled sofran Sbaeneg. Mewn man arall, bu gorbwysau i gredyd 'securitized passthrough' yr UDA yn weddol ddefnyddiol.

Cronfa Credyd Aml-ased:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 4%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.3	9.9	9.9	3.6	4.5
Net	1.2	9.5	9.6	3.3	4.2
3 Mis GBP SONIA + 4%	2.0	8.5	9.0	7.3	7.0
Gwarged enillion (gros)	-0.7	1.4	0.9	-3.7	-2.5
Enillion dros ben (Net)	-0.8	1.0	0.6	-4.0	-2.8
Meincnod dyrannu asedau strategol	1.6	7.9	8.5	3.9	4.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

*Nid yw amlygiad arian cyfred lleol EMD yn cael ei rag-fantoli yn y cyfanswm SAA hwn.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Cofnododd y Gronfa enillion cadarnhaol yn y pedwerydd chwarter.

Fel yn y chwarter blaenorol, gwobrwywyd cyfraddau a safle credyd tra bod arian cyfred wedi tynnu sylw. Mewn cyfraddau, roedd amlygiad i Drysorlys yr Unol Daleithiau tymor byrrach yn arbennig o effeithiol. Roedd dyraniadau i fyndiau'r Almaen hefyd yn ddefnyddiol. Mewn credyd, roedd amlygiad i ddiwydiannau cynnyrch uchel yr Unol Daleithiau ac Ewrop yn gyfrannwr cadarnhaol nodedig. Bu dyraniadau i elfennau ariannol cynnyrch uchel Ewropeaidd hefyd o gymorth. Yng nghredyd y DU, roedd amlygiad i elfennau ariannol a diwydiannau cynnyrch uchel yn ychwanegol. Roedd safle mewn dyled marchnadoedd datblygol arian cyfred caled yn effeithiol gyda chyfraniadau o America Ladin, Affrica, y Dwyrain Canol ac i raddau llai Ewrop tra bod dyraniadau i Asia wedi tynnu sylw. Gwobrwywyd amlygiad i gredyd 'securitized' yr Unol Daleithiau gyda'r cyfraniad mwyaf gan warantau masnachol, a gefnogir gan forgeisi, nad ydynt yn asiantaeth. Roedd dyraniadau i rwymedigaethau morgeisi nad ydynt yn asiantaeth, trosglwyddiadau risg credyd a rhwymedigaethau benthyciad cyfochrog hefyd yn gadarnhaol. Mewn mannau eraill, cyfrannodd amlygiad i fenthyciadau banc tymor byrrach. Mewn arian cyfred, cafodd sterling y DU effaith negyddol nodedig. Cofnododd yr holl reolwyr gwaelodol enillion cadarnhaol dros y chwarter.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 2%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.1	5.0	6.5	4.5	4.5
Net	1.0	4.7	6.3	4.3	4.2
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.5	6.5	6.9	5.2	5.1
Gwarged enillion (gros)	-0.4	-1.5	-0.4	-0.7	-0.6
Enillion dros ben (Net)	-0.5	-1.8	-0.7	-0.9	-0.9

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol.

Gwobrwywyd amlygiad i fondiau trosadwy. Fe wnaeth bondiau trosadwy elwa o'u sensitifrwydd marchnad ecwiti wrth i ecwiti byd-eang gynyddu, gyda chefnogaeth enillion corfforaethol iach a pholisi ariannol hyblyg. Mewn marchnadoedd credyd, symudodd 'spreads' tynn i'r ochr yn fras a lefelodd y gromlin credyd ymhellach. Roedd hyn yn dilyn perfformiad cryf yn y trydydd chwarter. Roedd amlygiad i warantau Ewropeaidd, wedi'u cefnogi gan asedau, yn parhau i fod yn gadarnhaol yn yr amgylchedd hwn. Roedd amlygiad i gredyd cynnyrch uchel yn gyfrannwr pellach gan ei fod wedi perfformio'n well yn gyffredinol na chredyd graddfa buddsoddi. Cofnododd yr arbenigwr macro byd-eang, Wellington enillion negyddol a effeithiodd ar berfformiad pellach. Dioddefodd Wellington o'i ffafriaeth am gyfnod Portiwgaleg ar draul cyfnod Ffrainc. Ni chafodd gorbwysau tactegol i yen Siapan ei wobrwyo chwaith.

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.65%** sy'n fwy na meincnod net yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch4 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.5	7.2	6.4	-0.3	0.3
Net	2.5	7.0	6.3	-0.4	0.2
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	2.5	6.8	5.7	-1.2	-0.6
Gwarged enillion (gros)	0.0	0.4	0.7	0.9	0.9
Enillion dros ben (Net)	0.0	0.2	0.6	0.8	0.8

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust ar 31 Rhagfyr 2025

Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly y perfformiad) yn wahanol i'r rheolwr/rheolwyr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y portffolio danberfformio o fymryn dan y meincnod dros y chwarter. Fe wnaeth sefyllfa strwythur y tymor dynnu oddi wrth y perfformiad, gyda safle anffafriol ar draws y gromlin cynnyrch sterling yn pwyso ar enillion. Yn ogystal, tynnodd y safle hir yn hyd yen Siapan yn dilyn cynnydd mewn cyfradd gan Fanc Siapan, a wthiodd cynnyrch yn uwch, tra bod safle anffafriol trwy fodel '*quant*' hefyd yn pwyso ar enillion. Cafodd y colledion hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan y safle byr yn yr Ewro, a'r sefyllfa ffafriol ar draws cromlin trysorlys yr UD a oedd yn ychwanegu gwerth.

Arweiniodd safle credyd at enillion cymharol gwastad yn fras, gan fod cyfraniadau cymedrol o beta, dyraniad a dewis diogelwch yn gwrthbwyso ei gilydd i raddau helaeth. Nid oedd unrhyw sector unigol yn cynhyrchu cyfraniad materol at berfformiad cymharol. Ar lefel y cyhoeddwr, roedd safleoedd gorbwysau yn New York Life Insurance a BMW yn gyfranwyr cymedrol, tra bod y safleoedd tanbwysau yn E.ON a HSBC yn pwyso ychydig ar enillion. Roedd tanbwysau strwythurol Fidelity mewn lled gyhoeddwr/cyhoeddwr uwchwladol dethol hefyd yn pwyso ar enillion.

Credyd Preifat Byd-eang PPC - Blwyddyn I a II

CBLL 10 MAWRTH 2026



AIDAN QUINN, CFA

Uwch Gyfarwyddwr, Tîm Cleient EMEA

ALICE MURPHY,

Uwch Reolwr, Tîm Cleient EMEA

KEITH BRAKEBILL, CFA

Cyd-bennaeth Incwm Sefydlog Byd-eang

Tud. 90



Invest without boundaries™

Mae Credyd Preifat PPC Blwyddyn 1 wedi'i ymrwymo'n llawn, ac mae gan Flwyddyn II ddigon o bowdr sych pe byddai marchnadoedd sigledig yn cyflwyno cyfle



LLWYDDIANT BLWYDDYN I

- ✓ Ymrwymo cyfalaf yn llwyddiannus yn unol â gofynion PPC
- ✓ Darparu dyraniad sylweddol i Impact



CYFLE I GREDYD PREIFAT YN PARHAU I DYFU

- ✓ Mae credyd preifat yn parhau i fod yn ddosbarth ased cymhellol
- ✓ Bydd y strwythur a roddwyd ar waith gan PPC yn caniatáu i ni ogwyddo tuag at sectorau deniadol y farchnad




MWY O FFOCWS AR FUDDSODDIADAU EFFAITH LLEOL

- ✓ Gosododd Blwyddyn I y sylfeini ar gyfer rhaglen i fuddsoddiadau lleol (Cymru)
- ✓ Bydd Blwyddyn II yn adeiladu ar y sylfeini hyn, ac yn sefydlu ecosystem credyd preifat Cymru ymhellach.

Blwyddyn I

Tud. 92

Cynnydd defnydd Blwyddyn I



RHAGOLWGW GALW CYFALAF:

Cronfa	Bywyd hyd yma		2026		2027		2028		Balans	
	Tynnu i lawr	Dosb.	Tynnu i lawr	Dosb.	Tynnu i lawr	Dosb.	Tynnu i lawr	Dosb.	Tynnu i lawr	Dosb.
Mewn (£m)										
£696 Cyfanswm Ymrwymiedau	369	0	146	134	47	182	5	165	3	251


Portffolio Blwyddyn I

Amcan: Nod y Gronfa yw darparu mynediad estynedig at wyth strategaeth arbenigol o safon uchel. Mae'r Gronfa yn ceisio buddsoddi'r mwyafrif o'i hymrwymiaidau mewn trafodion dyled israddol ac uwch cwmnïau byd-eang bychain i faint canolig, yn ogystal ag eiddo tiriog a phrosiectau isadeiledd sy'n gymesur â chyflawni'r amcan dychwelyd cyffredinol o'r mandad.

Targed IRR Net*	8-11%
Targed Cynnyrch Net*	6-8%
Cyfalaf Ymrwymedig	£696mn ym Mlwyddyn I
Awdurdodau yn cymryd rhan	7


Cronfa	Cyfalaf Ymrwymedig	Galw am Gyfalaf	Ffocws Strategaeth	Daeryddiaeth	% Portffolio	Perfformiad
Pemberton Strategic Credit III	£78m	£100.0m	Corfforaethol - SS	Ewrop	17.5%	11.17%
HIG Bayside Credit Opps VII	£80m	£32.8m	Corfforaethol - SS	Ewrop	7.8%	15.96%
Hamilton Lane DC	\$255m	\$214.5m	Corfforaethol - DL	Byd-eang	34.4%	10.2%
BX Green Credit III	\$63m	\$22.1m	Corfforaethol - DL	Byd-eang	1.4%	13.42%
Ares Capital Europe VI	£90m	£38.4m	Corfforaethol - DL	Ewrop	9.4%	10.57%
Capital Four PD V	£55m	£34.2m	Corfforaethol - DL	Ewrop	7.6%	15.96%
Starwood EREDF II	£75m	£32.4m	Seiliedig ar Ased - RE	Ewrop	6.9%	8.42%
Pluto UK REDF VIII	£15m	£15.0m	Seiliedig ar Ased - RE	DU	4.2%	12.6%
Pluto Wales I	£15m	£5.0m	Seiliedig ar Ased - RE	DU - Cymru	1.2%	6.9%
LOIM Sustainable PC	\$66m	\$60.1m	Seiliedig ar Ased - Div	Byd-eang	9.6%	11.1%
10 cronfa	£702m	£490.6m	Estynedig	Byd-eang		

Impact & Local





■ 84% Global Private Credit ■ 11% Impact ■ 5% Local

Regional Exposure



■ 42% North America ■ 23% United Kingdom ■ 35% Europe ex UK

Diweddariad data cynaliadwyedd



Astudiaeth Achos: Obsidian, Cilgeti



EFFAITH

- Cartrefi teuluol mewn cymuned breswyl, yn agos at ardaloedd gyda marchnad ail gartrefi fawr.
- 15 marchnad agored 4 fforddiadwy
- Cadwyn gyflogaeth leol

ARIANNOL

- LTV 64%
- IRR 12.35%
- Maint benthyciad o £4.58m



Blwyddyn II

Tud. 97




Portffolio Blwyddyn II

Amcan: Nod y Gronfa yw darparu mynediad estynedig at wyth strategaeth arbenigol o safon uchel. Mae'r Gronfa yn ceisio buddsoddi'r mwyafrif o'i hymrwymadau mewn trafodion dyled israddol ac uwch cwmnïau byd-eang bychain i faint canolig, yn ogystal ag eiddo tiriog a phrosiectau isadeiledd sy'n gymesur â chyflawni'r amcan dychwelyd cyffredinol o'r mandad.

Targed IRR Net*	8-11%
Targed Cynnyrch Net*	6-8%
Cyfalaf Ymrwymedig	£569mn ym Mlwyddyn II
Awdurdodau yn cymryd rhan	7

Impact & Local



■ 70% Global Private Credit ■ 20% Impact ■ 10% Local

Cronfa	Cyfalaf Ymrwymedig	Galw am Gyfalaf	Ffocws Strategaeth	Daeryddiaeth	% Portffolio*	Perfformiad**
Bayview Opportunity VII	\$100m	\$36.8m	Seiliedig ar Ased - Div	UDA	76.0%	
Pluto UK REDF VIII	£25m	£2.3m	Seiliedig ar Ased - RE	DU	6.2%	
Pluto Wales II	£25m	£2.3m	Seiliedig ar Ased - RE	DU - Cymru	4.0%	
Hamilton Lane DC	\$100m	\$6.9m	Corfforaethol - DL	Byd-eang	13.8%	
***Harwood Private Capital II	£50m		Corfforaethol - DL	DU		

Tud. 98

* Yn seiliedig ar NAVs wedi'u hamcangyfrif ar 31 Rhagfyr 2025

** Nid yw'r IRRs net ar gael gan fod y Gronfa wedi bod yn buddsoddi llai na blwyddyn

*** Pwyllgor buddsoddi wedi cymeradwyo, ond yn amodol ar adolygiad cyfreithiol llawn, negodi llythyr atodol a llofnodiadau cau.

Benthyciadau Credyd Preifat Cymru PPC

Vintage I

Vintage II

Vintage I & II

Cylch Cyllido

Benthyciad Llawn: £19,600,000
GP: Bayview
Arallgyfeirio Benthyciad BBaCh (300+) drwy UK Originator i fusnesau Cymru ledled Cymru.

Datblygiad Tai Llanarth

Buddsoddiad PPC: £2,200,000
Benthyciad Llawn: £3,900,000
Gorlawn: £1,700,000
GP: Pluto
Statws: Heb ei wireddu
IRR Gros: AMH.

Benthyciad Datblygu Cilgeti

Buddsoddiad PPC: £2,200,000
Benthyciad Llawn: £4,200,000
Gorlawn: £2,000,000
GP: Pluto
Statws: Heb ei wireddu
IRR Gros: Amh.

Iceland

Buddsoddiad PPC: £600,000
Benthyciad Llawn: £13,500,000
GP: HIG Bayside
Statws: Wedi gwireddu
IRR Gros: 39.3%

Veezu

Buddsoddiad PPC: £9,700,000
Benthyciad Llawn: £203,000,000
GP: Pemberton
Statws: Heb ei wireddu
IRR Gros: Amh.

Benthyciad PBSA Caerdydd

Buddsoddiad PPC: £13,800,000
Benthyciad Llawn: £28,200,000
GP: Pluto
Statws: Heb ei wireddu
IRR Gros: Amh.

Canolfan Siopa Pen-y-bont

Benthyciad PPC: £8,300,000
Cyfanswm y Benthyciad: £84,400,000
GP: Starwood
Statws: Heb ei wireddu
IRR Gros: Amh.



Invest without boundaries™



Ind. 100



Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for: Anthony Parnell

Dyddiad / Date: 16 Mawrth 2026

E-bost / E-mail: partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Annwyl Gydweithwyr

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP) wedi cael nifer o gynigion gyda rhybudd gan Awdurdodau Lleol Cymru, a nodwyd ac a drafodwyd yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC) Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 8 Rhagfyr 2025.

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru y datganiad canlynol ar ei gwefan:

"Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cymryd ei chyfrifoldebau fel perchennog asedau o ddifrif. Ein nod yw bod yn stiwardiaid cyfrifol a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ein buddsoddiadau yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Rydym yn sicrhau bod ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn rhan o'n gwaith stiwardiaeth a buddsoddi. Mae hyn yn cwmpasu materion fel newid yn yr hinsawdd, hawliau dynol a thorri cyfraith ryngwladol.

Rydym wedi ymroi i wrando, deall ac ymateb yn agored ac yn gyfrifol i bryderon ein haelodau, yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol a chanllawiau diweddaraf y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae gennym ymagwedd aml-haen at stiwardiaeth. Robeco yw ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu penodedig, ac rydym hefyd yn aelodau o Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol. Mae'r ddau yn ymgysylltu â chwmnïau ar ein rhan i ysgogi gwelliannau i arferion ac adroddiadau, ac i'n helpu i leihau risgiau yn ein buddsoddiadau. Rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar eu cynnydd, sy'n llywio ein penderfyniadau. Os na lwyddir i ymgysylltu â chwmni nad yw'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n rhwymedigaethau cyfreithiol, rydym yn trafod camau gweithredu posibl gyda'n rheolwyr buddsoddi, a bydd dadfuddsoddi yn ganlyniad posibl.

Mae gan rai o'r strategaethau buddsoddi waharddiadau penodol eisoes, sy'n golygu nad ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau cysylltiedig â gweithgareddau megis tybaco, olew palmwydd, arfau dadleuol, a chloddio am lo. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein fframwaith buddsoddi, gan gynnwys gwaharddiadau a allai fod yn berthnasol i bob buddsoddiad Partneriaeth Pensiwn Cymru, lle bo hynny'n bosibl. Rydym yn disgwyl gorffen yr adolygiad hwn erbyn dechrau 2026."

Chris Moore FCCA

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Corporate Services,
County Hall, Carmarthen Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Mae'r adolygiad bellach wedi dod i ben, ac mae adran 7 (adran gwahardd) o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol wedi'i diweddarau yn unol â hynny. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gweithio gyda swyddogion o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, Rheolwyr Buddsoddi a darparwyr eraill i ddatblygu prosesau a rheolau mewnol i lywodraethu cwmpas a chymhwyso'r polisi hwn.

Cymeradwywyd y polisi wedi'i ddiweddarau gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 10 Mawrth a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2026. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i gytuno ar ffenestr briodol (y disgwylir iddi fod tua thri mis) ar gyfer cyflwyno'r polisi.

Fel yr awdurdodau sy'n gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gofynnaf a fydddech cystal â rhannu'r ymateb hwn â'ch awdurdodau unedol priodol.

Yn gywir,



Y Cyngorydd Peter Lewis

Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, Partneriaeth Pensiwn Cymru

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	6 GORFFENNAF 2026
TEITL:	FFORWM CRONFA BENSIWN AWDURDODAU LLEOL (LAPFF)
PWRPAS:	Cyflwyno diweddariad ar weithgareddau'r fforwm
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI CYNGHORYDD STEPHEN CHURCHMAN

1. Cyflwyniad

Mae Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) yn hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i ddiogelu gwerth hirdymor cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol.

Mae'r Cyngorydd Stephen Churchman yn aelod o Fwrdd Gweithredol LAPFF ac mae'n rhoi mewnbwn gwerthfawr i waith y fforwm.

2. Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF)

Mae'r LAPFF yn grŵp cyfranddalwyr cydweithredol o gronfeydd pensiwn sector cyhoeddus y DU sy'n defnyddio asedau cyfunol ei aelodau i hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol, cyfrifoldeb amgylcheddol, ac arferion busnes moesegol.

Mae gweithgareddau allweddol y fforwm yn cynnwys:

- **Ymgysylltu â Chwmnïau'n Uniongyrchol:** Ymgysylltu'n uniongyrchol â chadeiryddion a byrddau cwmnïau i ddylanwadu ar bolisïau busnes a chyfansoddiadau byrddau.
- **Materion ESG:** Pwyso ar gorfforaethau mawr i reoli risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG), gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a materion hawliau dynol.
- **Goruchwylio lawndal Gweithredol:** Herio achosion o gyflog gweithredol gormodol a sicrhau cyfrifyddu corfforaethol dibynadwy.
- **Dylanwad Polisi:** Ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth a rheoleiddiol i lunio deddfau buddsoddi a diogelu hawliau cyfranddalwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1.

Bydd y Cyngorydd Stephen Churchman yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ar waith a datblygiadau diweddaraf y fforwm.

3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.



LAPFF,
Exchange Tower, 8th Floor,
2 Harbour Exchange Square
London E14 9GE

General Enquiries
Email: info@lapfforum.org

THE LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM

Protecting local government pension funds

Seven million people depend on Local Government Pension Scheme (LGPS) funds now and in the future. These pensions support everyday livelihoods and long-term financial security across the UK.

Your pension fund depends on the success of companies in which it is invested. When those companies face sudden challenges, the repercussions are significant. Carillion, Thomas Cook and others ignored or mismanaged risks and faced the consequences. Investors and pension funds as well as employees, suppliers and local economies felt the impact.

All companies that your pension fund invests in face risks – to their business models, reputations, supply chains, and operations. These risks include financially important issues such as reliable accounts, environmental factors, and workforce matters, all of which need to be properly managed by company boards accountable to shareholders.

Increasing expectations on pension funds

Regulators and government increasingly expect funds to show how they oversee and manage their investments and reduce their exposure to unnecessary risk. You are not just managing assets. You are stewards of pension savings.

As members of pension committees and boards your stewardship responsibilities include...

- meeting legal and regulatory expectations on asset owners
- accountability to beneficiaries and local communities
- safeguarding long-term value

It is essential to protect against the unintended consequences of risks not being fully understood. This requires:

- checking that companies are making the right decisions
- identifying issues before they escalate
- engaging with companies when concerns arise



LAPFF,
Exchange Tower, 8th Floor,
2 Harbour Exchange Square
London E14 9GE

General Enquiries
Email: info@lapfforum.org

How LAPFF helps you meet your responsibilities

The Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF) is a trusted network of peers - people facing the same responsibilities, challenges, and decisions - sharing insights, working together and providing support.

LAPFF has 88 LGPS funds and all six pools in its membership – representing £425 billion of assets. LAPFF helps you meet your responsibilities and because of its scale, influences corporate behaviour to deliver sustainable, long-term value for local pensions.

LAPFF helps you manage risk and strengthen oversight.

- ✓ We engage directly with companies, usually led by a councillor or a practitioner member of the LAPFF Executive. We speak with FTSE boards and global companies to address concerns early.
- ✓ From governance at the top of companies through to their supply chains, LAPFF identifies financial risks that affect long-term value.
- ✓ LAPFF supports its members by working with other global institutional investors and escalates activity when needed.

Supporting you with your responsibilities

LAPFF helps you demonstrate clear, effective stewardship:

- ✓ Input into policy discussions with government and regulators
- ✓ Reporting on engagement activity and outcomes
- ✓ Access to focused research and analysis

Members collectively decide what to focus on, and also have:

- ✓ Direct access to expertise when needed
- ✓ Regular meetings to share intelligence and priorities
- ✓ A work plan built around member concerns

In a changing and uncertain world, LAPFF is here to support you in meeting your responsibilities. By working together and collaborating with other major institutional investors, we help you manage risk and protect the long-term value of local pension funds.

For more information, please contact: info@lapfforum.org

More information is available on the LAPFF website lapfforum.org and in the [LAPFF Annual Report 2025](#)

LAPFF is also available to present to member funds and pools.

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	6 GORFFENNAF 2026
TEITL	Cyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026
PWRPAS	Cyflwyno a nodi – <ul style="list-style-type: none">Datganiad o'r Cyfrifon Drafft
ARGYMHELLIAD	Derbyn y wybodaeth
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. **CYFLWYNIAD**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, sy'n darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Datganiadau Cyfrifon drafft yn y fformat statudol.

2. **ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU**

Bydd cyfrifon drafft yma yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo.

3. **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau dderbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2025/26.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2025/26

DRAFFT

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2025/26 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 44.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cynghorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gynghorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwngwynedd.cymru.

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth benodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair blynedd yn dilyn y prisiad actiwaraid ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o fuddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraid bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r lefel o asedau sydd ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2025 a gwnaed unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2026 ymlaen am dair blynedd.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas

Rheolwr Buddsoddi

01286 679128

delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid

Cyngor Gwynedd

Swyddfa'r Cyngor

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

Datganiad Hygyrchedd

Rydym yn ymwybodol, oherwydd natur a fformat y datgeliadau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn yr ddogfen hon, nad yw pob un o'r tablau yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad cyfrifon hwn neu os ydych am i unrhyw un o'r tablau neu'r datgeliadau gael eu darparu mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â unedbuddsoddi@gwynedd.llyw.cymru

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (i bob pwrpas yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEBAU Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2026, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Morgan CIPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

30 Mehefin 2026

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2025 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2026 £'000
	Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
101,760	Cyfraniadau	7	101,495
3	Incwm arall	8	5
9,156	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	9,378
110,919			110,878
(94,520)	Buddion	10	(95,546)
(7,870)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	11	(8,147)
(102,390)			(103,693)
8,529	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau		7,185
(18,282)	Costau rheoli	12	(13,672)
(9,753)	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa		(6,487)
	Enillion ar fuddsoddiadau		
65,847	Incwm buddsoddi	13	84,845
105,626	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	14	283,936
171,743	Enillion net ar fuddsoddiadau		368,781
161,720	Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		362,294
3,069,995	Asedau net agoriadol y gronfa		3,231,715
3,231,715	Asedau net terfynol y gronfa		3,594,009

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 44 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2025 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2026 £'000
0	Buddsoddiadau hir dymor	14	159
3,192,243	Asedau buddsoddi	14	3,533,304
1,546	Adneuron arian parod	14	7,208
(642)	Ymrwymadau buddsoddi	14	0
3,193,147	Cyfanswm buddsoddiadau net		3,540,671
42,580	Asedau cyfredol	20	61,725
(4,012)	Ymrwymadau cyfredol	21	(8,387)
3,231,715	Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd		3,594,009

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhriadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2025) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gyntdeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr Atodlen	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elian
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE (gorffen 31/05/2025)	Asiantaeth Cefnfyrrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	Cyngor Tref Llanrwst
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf	
Cyrff a Ganiateir	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni'r Frân Wen	Mantell Gwynedd
Menter Môn	Medrwn Môn
Menter Iaith Gwynedd	
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir	
ABM Catering (gorffen 31/07/2025)	A E & A T Lewis
Chartwells	

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
Nifer y cyflogwyr	47	45
Nifer y gweithwyr yn y cynllun		
Cyngor Sir	15,198	15,356
Cyflogwyr eraill	4,214	4,156
Cyfanswm	19,412	19,512
Nifer y pensiynwyr		
Cyngor Sir	10,746	11,284
Cyflogwyr eraill	2,530	2,688
Cyfanswm	13,276	13,972
Pensiynwyr gohiriedig		
Cyngor Sir	12,435	12,735
Cyflogwyr eraill	2,411	2,456
Cyfanswm	14,846	15,191
Buddion heb eu hawlio		
Cyngor Sir	4,055	4,152
Cyflogwyr eraill	628	628
Cyfanswm	4,683	4,780
Ymadawyr heb benderfynu		
Cyngor Sir	1,604	1,355
Cyflogwyr eraill	188	185
Cyfanswm	1,792	1,540
Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun	54,009	54,995
Pensiwn		

c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2022. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 0.0% i 31.8% o dâl pensiynadwy.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbriso (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2026. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/26 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Cod yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael eu datgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2025/26.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth reffeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail groniodol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari'r Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniodau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

Pan fydd cyflogwr yn gadael y cynllun, cronnir unrhyw gyfraniadau sy'n ofynnol neu gredyd ymadael sy'n daladwy yn y flwyddyn ymadael.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

ii) Incwm dididend

Cydnabyddir incwm dididend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

v) Cronfeydd cronedig

Mae incwm a enillir o fewn y buddsoddiad ar y cyd yn cael ei gadw gan reolwyr cronfa fel rhan o asedau cyfalaf y gronfa ac fe'i hadlewyrchir mewn pris uned uwch.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

ch) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

d) Costau rheoli

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost rheoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

Costau gweinyddol

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

Costau arolygu a llywodraethu

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

Costau rheoli buddsoddiadau

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a phrynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

dd) Treth

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

Datganiad asedau net

e) Asedau ariannol

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu gollodion ar werthiannau buddsoddi sy'n

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Côt ac SAARh 13 (gweler nodyn 15). Ar gyfer dibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd a'r saith cyfranddaliwr arall gyfran o 12.5% yng Nghwmni Rheoli Buddsoddi Wales Pension Partnership Investment Management Company (Rhif Cwmni 16645479). Fel y cyfryw, ystyrir nad oes gan unrhyw Gronfa ddylanwad sylweddol, ac mae'r buddsoddiad hirdymor hwn yn cael ei gyfrif ar werth teg. Mae'r ased yn cael ei fesur i ddechrau ar gost a bydd yn cael ei ailbrisio wedyn ar gyfer unrhyw nam. Rhoddodd y Gronfa gyfraniad o £158,825 ymlaen yn ystod 2025/26 i ariannu costau cychwynnol sefydlu'r cwmni.

f) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

ff) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falansau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

g) Ymrwymadau ariannol

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail cronïadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

ng) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Côt, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIÄU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

h) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

i) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu ymrwymiad ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth yr ymrwymiad ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIÄU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu, credyd preifat ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2026 yn £432.5 miliwn (£413.0 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

Ymrwymadau'r gronfa pensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol asydd wedi’u haddo(Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir HymansRobertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol ag arweiniady <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £432.5 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Mae'r Gronfa wedi dod ynghyd â’r 7 Cronfa CPLIL arall yng Nghymru i ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (WPP IM Co), sy’n eiddo i bob Cronfa 1/8.

Mae WPP IM Co (rhif cwmni 16645479) yn ceisio cael ei reoleiddio gan FCA ac i ddechrau darparu gwasanaethau i bob un Cronfa yn ystod 2026/27. Ar ôl cael y statws rheoleiddiedig angenrheidiol, bydd IM Co yn cymryd cyfrifoldeb am reoli a goruchwyllo buddsoddiadau pob Cronfa.

Bydd yn ofynnol i bob Cronfa ddarparu cyfalaf rheoleiddiol yn ystod 2026/27 ac yn barhaus codir ffioedd yn dibynnu ar y gwasanaethau a gymerwyd a’r asedau dan reolaeth.

NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Yn ôl categori

2024/25		2025/26
£'000		£'000
24,831	Cyfraniadau gweithwyr	26,040
	Cyfraniadau cyflogwyr:	
76,844	• Cyfraniadau arferol	80,584
85	• Eraill*	(5,129)
76,929	Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr	75,455
101,760	Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy	101,495

Yn ôl math o gyflogwr

2024/25		2025/26
£'000		£'000
32,503	Cyngor Gwynedd	33,981
63,001	Cyrff eraill ar yr atodlen	60,587
1,872	Cyrff a ganiateir	2,380
3,691	Cyrff cymunedol a ganiateir	3,895
150	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	147
458	Cyrff a benderfynir	505
85	Cronfeydd caeedig**	0
101,760		101,495

* Eraill - mae hyn yn ymwneud â trafodion credyd ymadael

** Cronfeydd caeedig - mae hyn yn ymwneud â chyflogwr yn flaenorol yn gorff a ganiateir ond bellach yn gronfa caeedig.

NODYN 8 – INCWM ARALL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
3	Incwm ar gyfrifo ysgariad	5
3		5

NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
9,156	Trosglwyddiadau unigol	9,378
9,156		9,378

NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

Yn ôl categori

2024/25		2025/26
£'000		£'000
70,063	Pensiynau	74,126
21,597	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	19,330
2,860	Buddion marwolaeth – lwmp swm	2,090
94,520		95,546

Yn ôl math o gyflogwr

2024/25		2025/26
£'000		£'000
28,742	Cyngor Gwynedd	29,492
48,151	Cyrff eraill ar yr atodlen	48,969
2,085	Cyrff a ganiateir	1,896
2,417	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,558
56	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	23
133	Cyrff a benderfynir	163
12,936	Cronfeydd gaeedig	12,445
94,520		95,546

NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
209	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	328
0	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y wladwriaeth	(1)
7,661	Trosglwyddiadau unigol	7,820
7,870		8,147

NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2024/25		2025/26
£'000		£'000
15,738	Costau rheoli buddsoddiadau	10,885
1,988	Costau gweinyddol	2,145
556	Costau arolygaeth a llywodraethu	642
18,282		13,672

NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2025/26	Ffioedd Rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	626	0	626
Ecwiti	949	1,136	2,085
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,162	5	1,167
Credyd preifat	1,089	0	1,089
Ecwiti preifat	1,865	0	1,865
Isadeiledd	3,553	135	3,688
	9,244	1,276	10,520
Ffioedd gwarchodaeth			365
Cyfanswm			10,885

2024/25	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	594	101	695
Ecwiti	1,807	986	2,793
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,708	0	1,708
Credyd preifat	990	0	990
Ecwiti preifat	4,370	0	4,370
Isadeiledd	4,763	88	4,851
	14,232	1,175	15,407
Ffioedd gwarchodaeth			331
Cyfanswm			15,738

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiadau a grëwyd yn uniongyrchol gany Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Growth, Global Opportunities, Sustainable Equity, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond, Global Credit ac Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Er mwyn tryloywder, roedd ffioedd 2025/26 yn £6,141,626 (£4,125,186 yn 2024/25).

NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

2024/25		2025/26
£'000		£'000
903	Costau staff uniongyrchol	951
648	Costau uniongyrchol eraill	717
437	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	477
1,988		2,145

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

2024/25		2025/26
£'000		£'000
143	Ffioedd actiwari	213
68	Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi	69
47	Gwasanaeth monitro perfformiad	25
44	Ffioedd archwilwyr allanol	46
13	Pwyllgor Pensiwnau a Bwrdd Pensiwn Lleol	17
241	Partneriaeth Pensiwn Cymru	272
556		642

NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Waystone (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r Gwerth Ased Net (NAV).

Y costau arolygu a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a cheir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

	2024/25	2025/26
	£'000	£'000
Costau rheoli buddsoddiadau		
Ffioedd rheolwyr	5,624	4,808
Costau trafodion	1,175	1,270
Costau gwarchodaeth	331	365
	7,130	6,443
Costau arolygu a llywodraethu		
Costau rhedeg	241	272
Cyfanswm	7,371	6,715

NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

2024/25		2025/26
£'000		£'000
28,082	Incwm sefydlog	32,434
20,417	Ecwiti	21,499
1,252	Credyd Preifat	5,322
2,408	Ecwiti preifat	8,527
5,924	Isadeiledd	9,908
6,242	Buddsoddiadau eiddo cyfun	4,993
1,522	Llog ar adneuron arian parod	2,162
65,847	Cyfanswm cyn trethi	84,845

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

31 Mawrth		31 Mawrth
2025		2026
£'000		£'000
Asedau buddsoddi tymor hir		
0	WPP Investment Management Company	159
0		159
Asedau buddsoddi Cronfeydd cyfun		
878,523	Incwm sefydlog	1,161,551
1,725,148	Ecwiti	1,735,684
Buddsoddiadau eraill		
175,589	Buddsoddiadau eiddo cyfun	203,619
50,748	Credyd preifat	63,291
162,518	Ecwiti preifat	156,659
199,717	Isadeiledd	212,500
3,192,243		3,533,304
1,546	Adneuron arian parod	7,208
3,193,789	Cyfanswm asedau buddsoddi	3,540,671
Ymrwymadau buddsoddi		
(642)	Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	0
(642)	Cyfanswm ymrwymadau buddsoddi	0
3,193,147	Asedau buddsoddi net	3,540,671

NODYN 14a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

2025/26	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2025 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2026 £'000
Buddsoddiadau tymor hir	0	159	0	0	159
Buddsoddiadau cyfun	2,603,671	2,899,491	(2,886,084)	280,157	2,897,235
Buddsoddiadau eiddo cyfun	175,589	179,897	(148,319)	(3,548)	203,619
Credyd preifat	50,748	14,531	(678)	(1,310)	63,291
Ecwiti preifat / Isadeiledd	362,235	38,405	(33,552)	2,071	369,159
	3,192,243	3,132,483	(3,068,633)	277,370	3,533,463
Adneuron arian parod	1,546				7,208
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(642)				
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				6,566	
Asedau buddsoddi net	3,193,147			283,936	3,540,671

2024/25	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2024 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn £'000	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2025 £'000
Buddsoddiadau cyfun	2,558,668	59,499	(90,100)	75,604	2,603,671
Buddsoddiadau eiddo cyfun	210,350	3,980	(45,410)	6,669	175,589
Credyd preifat	10,235	37,642	0	2,871	50,748
Ecwiti preifat / Isadeiledd	257,011	118,878	(22,930)	9,276	362,235
	3,036,264	219,999	(158,440)	94,420	3,192,243
Adneuron arian parod	499				1,546
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(333)				(642)
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				11,206	
Asedau buddsoddi net	3,036,430			105,626	3,193,147

Nid oedd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd unrhyw ddeilliadau ar 31 Mawrth 2026 nac ar 31 Mawrth 2025.

NODYN I4b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2026		
£'000	%		£'000	%	
2,326,430	72.9	Partneriaeth Pensiwn Cymru	2,812,268	79.5	
521,850	16.3	BlackRock	500,194	14.1	
226,167	7.1	Grŵp Partners	192,557	5.4	
36,337	2.4	Threadneedle	35,344	1.0	
6,263	0.2	Lothbury	149	0.0	
76,742	1.1	UBS	0	0.0	
3,193,789	100.0		3,540,512	100.0	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2026		
£'000	%		£'000	%	
403,246	12.5	WS Wales PP Absolute Return Bond Fund	554,275	15.4	
460,613	14.3	WS Wales PP Global Opportunities Equity Fund	403,967	11.2	
418,895	13.0	WS Wales PP Global Growth Fund	389,529	10.8	
317,658	9.8	WS Wales PP Sustainable Active Equity Fund	359,705	10.0	
233,417	7.2	WS Wales PP Global Credit Fund	347,858	9.7	
294,958	9.1	BlackRock Aquila Life UK Equity Index Fund	301,088	8.4	
241,859	7.5	WS Wales PP Multi Asset Credit Fund	259,418	7.2	
0	0.0	BlackRock Aquila Life WPP World ESG INS EQ Fund	198,675	5.5	
170,002	5.3	Black Rock ACS World Low Carbon Fund	0	0.0	

NODYN I4c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £215,750 (£135,500 yn 2024/25). Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynwyd o £45.5m ar fenthyg (£44.7m ar 31 Mawrth 2025). Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw ymrwymadau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO

Mae'r holl asedau wedi'u prasio gan ddefnyddio technegau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prasio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1 - ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

Lefel 2 - ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prasio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

Lefel 3 - ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

Disgrifiad o'r Ased	Hierarchaeth brisio	Sail y prisiad	Mewnbynau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a Ddarperir
Arian a chyfwerthoedd arian	Lefel 1	Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Dim angen	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad	Mewnbnw prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Mewnbnw prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau eiddo cyfun	Lefel 3	Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl	Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau
Ecwiti preifat	Lefel 3	Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag <i>International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018</i> ac <i>IPEV Board's Special Valuation Guidance</i> (Mawrth 2020)	<ul style="list-style-type: none"> • Lluosrif EBITDA • Lluosrif referiaw • Gostyngiad am ddiffyg marchnadwyedd • Rheoli premiwm 	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar Brisiadau
Isadeiledd	Lefel 3	Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net	Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau	Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chyfnwyd tramor

Credyd preifat	Lefel 3	Defnyddir technegau prisio yn unol â GAAP yr UD i fesur gwerth teg sy'n gyson â dull y farchnad a/neu ddull incwm, yn dibynnu ar y math o warant a'r amgylchiadau	Mae buddsoddiadau preifat yn cael eu prisio i ddechrau yn seiliedig ar bris trafodion heb gynnwys treuliau. Mae dull y farchnad yn defnyddio prisiau a gynhrychir gan drafodion marchnad sy'n cynnwys gwarantau unfath neu debyg. Mae'r dull incwm yn defnyddio technegau prisio i ddisgowntio llif arian amcangyfrifedig y dyfodol i'r gwerth presennol.	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwylidig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau.
Buddsoddiad yn WPP IM Co	Lefel 3	Gwerth teg	Yn cael ei brisio yn wreiddiol ar gost	Bydd yn cael ei asesu yn y dyfodol am amhariad

Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiadau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcangyfrif mwyaf cywir gwerthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2026. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2025/26.

NODYN I5a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratwir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2026	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	Cyfanswm £'000
	Lefel 1 £'000	Lefel 2 £'000	Lefel 3 £'000	
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Buddsoddiadau tymor hir	0	0	159	159
Incwm sefydlog	0	1,161,551	0	1,161,551
Ecwiti	0	1,735,684	0	1,735,684
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	203,619	203,619
Credyd preifat	0	0	63,291	63,291
Ecwiti preifat	0	0	156,659	156,659
Isadeiledd	0	0	212,500	212,500
Adneuon arian parod	7,208	0	0	7,208
	7,208	2,897,235	636,228	3,540,671
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	0	0	0	0
Cyfanswm	7,208	2,897,235	636,228	3,540,671

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

Gwerth ar 31 Mawrth 2025	Pris y	Gan ddefnyddio	Heb fewnbwn	Cyfanswm
	farchnad a	mewnbwn gweladwy	gweladwy	
	ddyfynnwyd		syllweddol	
	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	878,523	0	878,523
Ecwiti	0	1,725,148	0	1,725,148
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	175,589	175,589
Credyd preifat	0	0	50,748	50,748
Ecwiti preifat	0	0	162,518	162,518
Isadeiledd	0	0	199,717	199,717
Adneuron arian parod	1,546	0	0	1,546
	1,546	2,603,671	588,572	3,193,789
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(642)	0	0	(642)
Cyfanswm	904	2,603,671	588,572	3,193,147

NODYN 15b – CYSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2025	Trosglwyddiadau i/o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion)/ Collection a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau tymor hir	0	0	159	0	0	0	159
Eiddo	175,589	0	179,897	(152,900)	(3,548)	4,581	203,619
Credyd Preifat	50,748	0	14,531	0	(1,310)	(678)	63,291
Ecwiti Preifat	162,518	0	17,731	(8,240)	(5,279)	(10,071)	156,659
Isadeiledd	199,717	0	20,674	(6,706)	7,350	(8,535)	212,500
Cyfanswm Lefel 3	588,572	0	232,992	(167,846)	(2,787)	(14,703)	636,228

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2024	Trosglwyddiadau o Lefel 3	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn	Enillion/ (colledion) na wireddwyd	(Enillion)/ colledion a wireddwyd	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Eiddo	210,350	0	3,980	(45,410)	6,669	0	175,589
Credyd preifat	10,235	0	37,642	0	2,871	0	50,748
Ecwiti preifat	167,029	0	12,230	(7,646)	1,177	(10,272)	162,518
Isadeiledd	89,982	0	106,648	(1,552)	8,099	(3,460)	199,717
Cyfanswm Lefel 3	477,596	0	160,500	(54,608)	18,816	(13,732)	588,572

NODYN I6 – DOSBARTHAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisiau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddsbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2025			Fel ar 31 Mawrth 2026		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol					
0	0	0	159	0	0
2,603,671	0	0	2,897,235	0	0
175,589	0	0	203,619	0	0
50,748	0	0	63,291	0	0
162,518	0	0	156,659	0	0
199,717	0	0	212,500	0	0
0	36,963	0	0	62,937	0
0	7,163	0	0	5,996	0
3,192,243	44,126	0	3,533,463	68,933	0
Ymrwymadau ariannol					
0	0	(4,654)	0	0	(8,387)
0	0	(4,654)	0	0	(8,387)
3,192,243	44,126	(4,654)	3,533,463	68,933	(8,387)

NODYN I6a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2026
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
Asedau Ariannol		
94,420	Gwerth teg drwy elw a cholled	277,370
0	Benthyciadau a derbyniadau	0
94,420	Cyfanswm yr asedau Ariannol	277,370
Ymrwymadau Ariannol		
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymadau Ariannol	0
0	Cyfanswm yr ymrwymadau Ariannol	0
94,420	Asedau ariannol net	277,370

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiaidau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Gronfa wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2024/25 a 2025/26.

Math o ased	Symudiad posib y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	%	%
Ecwiti DU	16.3	18.0
Ecwiti Byd-Eang	18.6	18.3
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	24.3	26.9
Ecwiti Preifat	26.6	27.0
Bondiau Corfforaethol	6.5	6.3
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	7.6	9.1
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	2.7	2.7
Isadeiledd	14.5	14.6
Eiddo	15.2	15.9
Credyd Amrywiol	6.3	6.1
Arian	0.3	0.3
Cronfa Gyfan	11.6	11.2

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyrriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas ddisgwyliedig rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol â chydberthynas yr asedau, yn unol â theori portffolio amrywiant cymedrig.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhreis y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2026 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	301,088	18.0	355,284	246,892
Ecwiti Byd-eang	1,351,876	18.3	1,599,269	1,104,483
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	82,721	26.9	104,973	60,469
Ecwiti Preifat*	156,659	27.0	198,957	114,361
Bondiau Corfforaethol	347,858	6.3	369,774	325,943
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	63,291	9.1	69,051	57,532
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	554,275	2.7	569,240	539,309
Isadeiledd*	212,500	14.6	243,525	181,475
Eiddo*	203,619	15.9	235,994	171,243
Credyd Amrywiol	259,418	6.1	275,242	243,593
Arian	62,936	0.3	63,125	62,748
Dyledwyr a Chredydwyr	(2,391)	0.0	(2,391)	(2,391)
Buddsoddiadau Tymor Hir*	159	0.0	159	159
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,594,009		4,082,202	3,105,816
*Agedau lefel 3	636,228		747,686	524,770

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2025 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	294,958	16.3	343,036	246,880
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	18.6	1,621,460	1,112,874
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	24.3	78,338	47,709
Ecwiti Preifat*	162,518	26.6	205,748	119,288
Bondiau Corfforaethol	233,417	6.5	248,589	218,245
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	50,748	7.6	54,605	46,891
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	2.7	414,134	392,359
Isadeiledd*	199,717	14.5	228,676	170,758
Eiddo*	175,588	15.2	202,278	148,899
Credyd Amrywiol	241,859	6.3	257,097	226,622
Arian	36,963	0.3	37,073	36,851
Dyledwyr a Chredydwyr	2,510	0.0	2,510	2,510
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,231,715		3,693,544	2,769,886
*Agedau lefel 3	588,571		691,307	485,836

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2025	Fel ar 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	35,417	55,729
Balansau arian parod	1,546	7,208
Cronfa Incwm Sefydlog	878,523	1,161,551
Cyfanswm	915,486	1,224,488

Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newid yn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2026	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	55,729	557	(557)
Balansau arian parod	7,208	72	(72)
Cronfa Incwm Sefydlog *	1,161,551	11,616	(11,616)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,224,488	12,245	(12,245)

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	35,417	354	(354)
Balansau arian parod	1,546	15	(15)
Cronfa Incwm Sefydlog *	878,523	8,785	(8,785)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	915,486	9,154	(9,154)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

4.17% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £2,109,931 am y flwyddyn (cyfartaledd cyfradd llog o 5.07% a chyfanswm llog o £1,087,938 yn 2024/25).

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian tramor ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€57.9 miliwn a UD\$15.7 miliwn). Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymadau ers 2005 felly mae'r ymrwymadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae risg cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael ei gyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyriad safonol disgwylidig l blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2026 yw 8.7%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 oedd 9.1%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2026 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2026 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedaunet sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti Byd-eang	1,351,876	1,469,489	1,234,263
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	82,721	89,917	75,524
Ecwiti Preifat	156,659	170,289	143,030
Bondiau Corfforaethol	347,858	378,122	317,595
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	63,291	68,798	57,785
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	554,275	602,497	506,053
Isadeiledd	212,500	230,987	194,012
Credyd Amrywiol	259,418	281,987	236,849
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	3,028,598	3,292,086	2,765,111

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	1,491,579	1,242,755
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	68,758	57,288
Ecwiti Preifat	162,518	177,307	147,729
Bondiau Corfforaethol	233,417	254,658	212,176
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	50,748	55,366	46,130
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	439,942	366,551
Isadeiledd	199,717	217,891	181,543
Credyd Amrywiol	241,859	263,869	219,851
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,721,696	2,969,370	2,474,023

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Cronfa	Canran o'r Portffolio
Ecwiti DU (Black Rock)	6.0%
Ecwiti Byd- Eang (Black Rock a Partneriaeth Pensiwn Cymru)	27.0%
Marchnadoedd Datblygol (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	2.0%
Credyd Aml Ased (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.5%
Bond Dychwelyd Absoliwt (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	12.5%
Credyd Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.5%
Credyd Byd- Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.0%
Cyfalaf Naturiol (Heb ei ddyrannu eto)	5.0%
Eiddo (Threadneedle a Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.0%
Isadeiledd (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	7.5%
Ecwiti Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	5.0%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil polisiâu yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuron arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor.

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuron y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddsbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o arian yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaid pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaid eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraid yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir yn dairblynyddol.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaid i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiaid buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2026, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £636m, sy'n cynrychioli 17.7% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2025: £589m, oedd yn cynrychioli 18.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl ymrwymadau ariannol ar 31 Mawrth 2026 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2025.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2025.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu ym Mawrth 2026.

I grynhoi, mae'r egwyddorion ariannu allweddol fel a ganlyn:

- cymryd golwg hirdymor darbodus i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna o leiaf siawns o 80% y bydd y Gronfa yn cyrraedd lefel ariannu'n llawn dros yr 17 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2025. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prasio'n £3,232 miliwn ar 31 Mawrth 2025, yn ddigon i dalu 166% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwarged ym mhrisiad 2025 oedd £1,286 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2029 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Rhagdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prasio 2025.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronodig sy'n ystyried aelodaeth bensiyndwy hyd at y dyddiad prasio, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiyndwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2025 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2025
Cyfradd disgownt	5.9 % y.f
Cynnydd mewn cyflog	2.8 % y.f
Cynnydd mewn pensiwn	2.3 % y.f

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwylidig oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2024, gyda pharamedrau craidd, ond am, ychwanegiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd hirdymor o 1.50% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwylidig oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Rhagdybiaethau marwolaeth	Gwryw Blynyddoedd	Benyw Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.8	23.7
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhriiad 2025)	21.8	25.3

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2025 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2025

Mae'r cynnydd mewn tariffau'r Unol Daleithiau ar fewnforio ers mis Mawrth 2025 a'r gwrthdaro diweddar yn y Dwyrain Canol wedi achosi anwadlwydd sylweddol yn y farchnad sy'n bwydo drwodd i'r enillion buddsoddi a gyflawnir gan asedau'r Gronfa. Mae enillion buddsoddi cyffredinol y Gronfa ers mis Mawrth 2025 wedi bod yn gadarnhaol.

Mae chwyddiant a arsylwyd wedi bod yn uwch na'r disgwyl dros 2026, gan arwain at gynnydd mewn budd-daliadau CPLIL o 3.8% ym mis Ebrill 2026 a chynnydd yn y gwerth a roddir ar ymrwymadau'r Gronfa.

Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod y sefyllfa ariannu yn debygol o fod yn wannach nag yn y prisiad ffurfiol blaenorol ar 31 Mawrth 2025.

Bydd y prisiad actiwaraid nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2028. Bydd y Datganiad Strategaeth Cyllido hefyd yn cael ei adolygu bryd hynny, a bydd fersiwn ddiwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2029.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried ymrwymadau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraid (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prasio buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi’u haddo ar 31 Mawrth 2025 ac 2026, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	£m	£m
Aelodau Gweithredol	1,004	984
Aelodau Gohiriedig	314	307
Pensiynwyr	735	903
Cyfanswm	2,053	2,194

Rhagamcanwyd y buddion ymddeol a addawyd ar 31 Mawrth 2026 gan ddefnyddio brasamcan ymlaen o'r prisiad cyllid ffurfiol diweddaraf ar 31 Mawrth 2025.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2026 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £93m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £61m.

Rhagdybiaeth	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
	%	%
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.75	3.00
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.25	3.50
Cyfradd ddisgownt	5.80	6.30

Mae'r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2025, gyda pharamedrau craidd, addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi'u crynhoi isod:

	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.9	23.8
Pensiynwyr y dyfodol (tybir ei fod yn 45 oed ar y dyddiad prisio diweddaraf)	21.9	25.4

Nid yw'r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi newid ers y flwyddyn diwethaf ac yn unol â phrasiad diweddaraf y gronfa.

Mae'r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymadau wedi'u nodi isod:

Newid mewn Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2026	Amcan cynnydd mewn buddion ymddeol y dyfodol	Amcan swm Ariannol
	%	£m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant CPI	2	36
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	2
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	38
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	88

NODYN 20 – ASEDAU CYFREDOL

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
966	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	568
3,004	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	1,662
3,193	Amrywiol ddyledwyr	3,766
7,163	Cyfanswm dyledwyr	5,996
35,417	Arian	55,729
42,580	Cyfanswm	61,725

NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
2,215	Credydwyr amrywiol	7,945
1,797	Buddion sy'n daladwy	442
4,012	Cyfanswm	8,387

NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2025 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2026 £'000
Clerical Medical	5,852	7,597
Utmost Life	125	80
Standard Life	5	6
Cyfanswm	5,982	7,683

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	2024/25 £'000	2025/26 £'000
Clerical Medical	1,135	1,408
Cyfanswm	1,135	1,408

NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,941,377 (£1,787,170 yn 2024/25) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £34.0m tuag at y Gronfa yn 2025/26 (£32.5m yn 2024/25). Ar ddiwedd y flwyddyn, £2.2m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynas â llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, a £2.9m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol (£1.9m) a chostau gadael GwE (£0.9m)

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2025/26, derbyniodd y Gronfa log o £2,109,931 (£1,087,938 yn 2024/25) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2025/26 (yr aelodau pwyllgor J.B.Hughes a G.Edwards). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W.Churchman, R.W.Williams, J.B.Hughes, I.Thomas, J.P.Roberts, R.M.Hughes, E.Hywel a G.Owen yn aelodau actif o'r Gronfa Bensiwn. Mae aelod pwyllgor I. Huws yn aelod gohiriedig o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2025/26 (yr aelodau bwrdd H.E.Jones a A.Deakin). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd R.Thomas, O.Richards, N.Michael a S.E.Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Cwmni Wales Pension Partnership Investment Management Company Limited (WPP IM Co)

Ffurfiwyd WPP IM Co (Rhif Cwmni 16645479) yn ystod 2025/26 gyda'r disgwyliad y bydd yn rheoli ac yn goruchwyllo buddsoddiadau pob Cronfa CPLIL Cymru gan ddechrau yn 2026/27. Mae pob Cronfa yn berchen ar 12.5% o WPP IM Co. Rhoddodd Cronfa Bensiwn Gwynedd gyfraniad o £158,825 ymlaen yn ystod 2025/26 i ariannu costau cychwynol sefydlu'r cwmni.

Prif Bersonél Rheoli

Y Pennaeth Cyllid (s151) a Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yw'r prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

2024/25		2025/26
£'000		£'000
31	Buddion tymor byr	33
5	Buddion ôl-gyflogaeth	6
36		39

NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymiadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm Ymrwymiadau £'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2025 £'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2026 £'000
Schroders Capital WPP Global Private Equity I L.P	12,500	7,556	5,656
Schroders Capital WPP Global Private Equity II L.P	25,000	18,250	16,000
Schroders Capital WPP Global Private Equity III L.P	27,500	0	19,195
GCM WPP Global Infrastructure I L.P	15,000	7,551	5,337
GCM WPP Global Infrastructure II L.P	27,500	0	25,666
Capital Dynamics CEI (WPP), L.P	10,000	5,869	3,191
Octopus Renewables Infrastructure	34,500	0	0
Russell Investments WPP Global Private Credit I L.P	110,000	62,286	51,703
Russell Investments WPP Global Private Credit II L.P	130,000	0	130,000
IFM Global Infrastructure UK (GB) L.P	57,500	0	0
Cyfanswm GBP	449,500	101,512	256,748
	€'000	€'000	€'000
Partners Group Direct 2006	20,000	0	0
Partners Group Global Value 2006	50,000	3,477	0
Partners Group Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
Partners Group Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
Partners Group Global Infrastructure 2012	40,000	3,419	3,419
Partners Group Direct 2012	12,000	1,181	1,181
Partners Group Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
Partners Group Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
Partners Group Global Value 2017	42,000	11,570	11,570
Partners Group Global Infrastructure 2018	28,000	4,631	4,631
Partners Group Direct Equity 2019	48,000	4,992	4,992
Partners Group Direct Infrastructure 2020	32,000	9,120	7,584
Partners Group Direct Equity V	30,000	22,279	16,129
Cyfanswm Ewro	394,000	69,082	57,919
	UD\$'000	UD\$'000	UD\$'000
Partners Group Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
Partners Group Secondary 2015	38,000	11,420	7,620
Partners Group Direct Infrastructure 2015	43,600	6,986	6,986
CBRE Global Infrastructure Fund (International) L.P	29,075	10,932	0
Cyfanswm Doleri	117,675	30,420	15,688

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw dyledus sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddeler yn y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 25 - ASED AU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	6 GORFFENNAF 2026
TEITL:	CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2026
PWRPAS:	I dderbyn y Cynllun
ARGYMHELLIAD:	DERBYN Y CYNLLUN
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Bydd archwiliad cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 31 Mawrth 2026 yn cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru. Gweler y Cynllun Archwilio yn Atodiad 1.

2. CYNLLUN ARCHWILIO

Mae'r cynllun yn nodi'r gwaith y mae'r archwilwyr yn ei wneud er mwyn cyflawni ei dyletswydd statudol gan amlygu'r prif risgiau.

3. ARGYMHELLIAD

Bod y Cynllun yn cael ei dderbyn.

Cronfa Bensiwn Gwynedd – Cynllun Archwilio Manwl 2026

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2026



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	5
Gwaith archwilio ariannol	6
Swyddogaethau archwilio statudol eraill	12
Ffi archwilio	13
Tîm archwilio	14
Ansawdd archwilio	15
Rhagor o wybodaeth	16

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Nghynllun Archwilio 2026. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cyflawni eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun gan ddilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig-ar-risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y dylai fy swyddogaeth archwilio a rhai swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni gan fy archwilywr.

Wrth graidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 15) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu cyrraedd. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor esmwyth â phosibl, a darparu mewnwelediadau gwerthfawr ynglŷn ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Mae fy rhaglen waith, fel a amlinellir yn y Cynllun hwn, yn eistedd ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a all gynnwys gwaith sy'n ymwneud â'ch sefydliad chi.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch archwiliad, bydd fy nhîm archwilio'n hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau

Ein diben



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Ein gweledigaeth



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad a pherthnasedd



Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Ein meysydd ffocws



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynyddol 2025-26](#) a hefyd Ein [Strategaeth 2022-27](#).

Gwaith archwilio ariannol

Archwilio'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch', a pha un a yw'r datganiadau wedi cael eu 'paratoi'n briodol'.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Mae gennyf hefyd gyfrifoldeb i gael cwestiynau am y datganiadau ariannol a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol).

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Perthnasedd y datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn gymwys nid dim ond i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu ac ymlyniad wrth y fframwaith cyfrifyddu perthnasol a'r gyfraith.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu'r lefel o gamddatganiad a allai beri i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- rhoi cymorth i bennu cwmpas ein dull archwilio a phroffion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; a

- hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy hysbysu.

Caiff y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi isod.



Mae un maes o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar ei gyfer:



Bydd fy nhîm archwilio'n asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

Risgiau arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae risgiau arwyddocaol yn golygu risgiau o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg gynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg arwyddocaol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau arwyddocaol hyn.

Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.

Meysydd eraill y bydd ffocws arnynt

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd sydd, er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau arwyddocaol fel uchod, yn rhai yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

Balansau asedau buddsoddi

Mae'r balans asedau buddsoddi'n cynnwys £3,192 miliwn o fuddsoddiadau (incwm sefydlog, ecwiti, eiddo cyfun, credyd preifat, ecwiti preifat a isadeiledd) sy'n gymhleth i'w prisio ac mae eu prisio'n cynnwys goddrychedd.

Felly ceir risg bod y balansau buddsoddi wedi'u camdatgan yn berthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn cysoni'r prisiadau â dogfennaeth ategol briodol;
- yn adolygu adroddiadau 'sicrwydd ynghylch rheolaethau' gan reolwyr cronfa perthnasol; ac
- yn gwerthuso'r risg o gamddatganiad perthnasol gweddillol a'r angen am weithdrefnau archwilio ychwanegol.

Diwygio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Yn dilyn yr ymgynghoriad 'Addas ar gyfer y Dyfodol' ym mis Tachwedd 2024, mae cwmni rheoli buddsoddiadau newydd a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wrthi'n cael ei ddatblygu.

Trwy gydol blwyddyn ariannol 2025-26 mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud i sefydlu'r cwmni, ac o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cydygyfuno, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026 bydd yr holl asedau'n cael eu rheoli gan y gronfa ar ôl 2025-26.

Golyga hyn, er y bydd asedau a fydd yn dal i gael eu rheoli'n lleol ar 31 Mawrth 2026, y bydd yn ofynnol gwneud datgeliadau eglur yn natganiadau ariannol y gronfa i ddisgrifio'r cynnydd yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn parhau i drafod a monitro datblygiadau o ran sefydlu'r cwmni rheoli buddsoddiadau; ac
- adolygu datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol i sicrhau eu bod yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o'r cynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng y Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cronfa bensiwn Gwynedd nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft cyflogwyr sy'n cyfranogi fel cyfranwyr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu proses y rheolwyr ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- yn cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â gofynion cyfrifyddu.

Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Isod ceir amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu ar eich cyfer.

Arddangosyn 1: Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Cynllunio	Cyfarfod cynllunio Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel Asesu'r risg o dwyll
Mawrth i Ebrill 2026	Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu Asesu risg yn yr amgylchedd TG Ffi archwilio ddangosol Cynllun Archwilio
Gwaith maes	Diweddarau'r asesiad risg Archwiliad o'r datganiadau ariannol gan gynnwys yr adroddiad naratif a'r datganiad llywodraethu blynyddol
Medi i Tachwedd 2026	Cwblhau profion archwilio Gwerthuso'r canfyddiadau archwilio Cyfarfod cau'r archwiliad
Adrodd	Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon Argymhellion ar gyfer gwella
Tachwedd 2026	Cyflwyno'r canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol Dysgu ar ôl y prosiect

Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Pennaeth Cyllid.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe gyhoeddom ni ein Cynllun Ffioedd 2026-27 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n nodi'r cynnydd cyfartalog i gyfraddau'r ffioedd o 5.3%.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar swm y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol.

Amcangyfrif o'ch ffi archwilio: £46,071 (2024-25 £43,835)

Nid yw eich ffi yn cynnwys TAW.

Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr fod wedi eu trafod gyda'r Pennaeth Cyllid yn gyntaf.

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:

- Bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwylidig o ran papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys graddfeydd amser a chyfrifoldebau.
- Nad oes unrhyw faterion arwyddocaol, heblaw fel a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu hadnabod yn ystod yr archwiliad.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd peth gwaith ar safleoedd yn parhau lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Mae gan gyrff a archwilir gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan fyddant ar eich safle.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas
yvonne.thomas@archwilio.cymru

Uwch Archwilydd

Osian Roberts
osian.roberts@archwilio.cymru

Ceir ddau achos posibl o wrthdaro buddiannau y mae angen i mi dynnu eich sylw ato:

- Mae'r Rheolwr Archwilio gyda ffrindiau a pherthnasau sy'n cyfrannu i, neu yn derbyn pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Mae'r Uwch Archwilydd gyda pherthnasau sy'n cyfrannu i Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae mesurau diogelu wedi'u rhoi ar waith i liniaru unrhyw risgiau annibyniaeth sy'n codi.

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Blynyddol Ansawdd Archwilio](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

